
# TGAU LLENYDDIAETH GYMRAEG

## Dim - Dafydd Chilton

gan Esyllt Maelor



# DIM



CBAC|WJEC

# CYNNWYS

*__Ymwadiad__*
*Bwriad yr adnoddau hyn yw bod o gymorth i ymgeiswyr fydd yn astudio'r nofel ar gyfer yr arholiad TGAU Llenyddiaeth Gymraeg. Disgwylir y bydd athrawon yn ychwanegu at y nodiadau ac yn eu haddasu yn ôl anghenion eu disgyblion.*


## 1. ADNABOD YR AWDUR

Cyfweliad gyda Dafydd Chilton

## 2. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

- Gwybodaeth a gweithgareddau am y cefndir
- Llinell amser
- Deall mwy am y cefndir
  - ◊ Cymru – 1978-1979: Protest Myfyrwyr Coleg y Brifysgol, Bangor
  - ◊ 1979: Y Refferendwn Datganoli
  - ◊ 1979-1982: Llosgi Tai Haf
  - ◊ Gogledd Iwerddon
  - ◊ Rhodesia
  - ◊ 1982: Rhyfel y Malvinas

## 3. Y CYMERIADAU

a) Adnabod y cymeriadau
b) Dadansoddiad o'r prif gymeriadau
c) Tasgau hunan-asesu

## 4. ADEILADWAITH

## 5. ARDDULL

- Cyffredinol
- Dadansoddi darnau penodol

## 6. THEMÂU

## Y TASGAU DIGIDOL – Cefndir y lleoliadau

i) Gweithgaredd 1 - Mapiau
ii) Gweithgaredd 2 - Thema: perthyn brawdol
iii) Gweithgaredd 3 - Themâu cyffredinol
iv) Gweithgareddau her mewn hanner munud (PowerPoint)

# ADNABOD YR AWDUR

## Cyfweliad gyda'r awdur, Dafydd Chilton

**1. Pam est ti ati i ysgrifennu'r nofel hon?**

Am sawl rheswm:

Roeddwn i wedi darllen nofel ryfel Gymraeg ac wedi meddwl ei bod hi'n wan. Mewn sefyllfa felly fe allwch chi naill ai cwyno (sy'n dda i ddim **byd**) neu geisio gwneud rhywbeth gwell.

Wedi dechrau ar y broses o feddwl mi benderfynais nad oeddwn i'n mynd i ysgrifennu nofel 'broblem' arall h.y. nofel yn ôl y fformiwla 'llyfrau i bobl ifanc'.

Mi feddyliais i hefyd nad oedd digon o lyfrau i fechgyn.

**2. Pam gosod cartref Owain a Gwyn yn Nyffryn Ceiriog?**

Yn gyntaf mae'n rhaid i chi ysgrifennu am yr hyn rydych chi'n gwybod amdano. Mi gefais fy magu ym mhen uchaf Dyffryn Ceiriog. Mae'r llefydd yn y nofel i gyd yn llefydd go iawn.

Yn ail, mae gen i deimlad bod Cymru'n cael ei chyfyngu fwyfwy i 'ardaloedd ghetto'. Roeddwn i am ddangos bod llefydd y tu allan i gymdeithasau Caerdydd a 'bröydd Cymraeg' y gorllewin yn rhan o Gymru hefyd.

Pwynt arall cysylltiedig â hyn ac efo thema'r nofel – mae pobl y ffin wedi byw efo Lloegr a Saeson ers Oes y Tuduriaid ac efallai fod gan y Cymry yma ar y ffin rywbeth i'w ddysgu i gadarnleoedd y Gymraeg.

**3. Mae Owain a Gwyn yn mynd i Ysgol Dre. Oedd yr ysgol hon wedi ei seilio ar ysgol go iawn?**

Oedd, hon oedd yr ysgol uwchradd yr es i iddi.

4


# ADNABOD YR AWDUR

**4. Mae Owain yn mynd i'r *SAS*. Beth wyt ti'n ei wybod am yr *SAS*?**

Mae fy ngwybodaeth o'r *SAS* yn seiliedig ar dri pheth: brwdfrydedd bachgen a daniwyd gan yr awyrgylch clodfori milwyr a rhyfel y cefais i a'm cyfoedion ein magu ynddo, a'r darllen oedd yn cyd-fynd â hynny; mynd i'r ysgol efo plant swyddogion y fyddin; ymchwil penodol o lyfrau ac o'r we.

**5. Mae Gwyn yn mynd i'r Coleg ym Mangor. Bu'n protestio yno. Oedd rhaid i ti ymchwilio wrth ysgrifennu am y cyfnod hwn?**

Fel pob digwyddiad arall o bwys yn y llyfr, mae'r protestio ym Mangor yn ddigwyddiad go iawn. Roeddwn i'n un o'r rhai a gafodd eu harestio am eu rhan yn y protestiadau. Felly, na.




**6. Mae Richard Lloyd, ewythr y bechgyn, yn ddyn doeth a hirben. Beth arall elli di ddweud amdano?**

Mae Richard Lloyd yn arweinydd cymuned o fath arbennig sydd i'w gael yn y Gymru Gymraeg – pobl nad oes ganddyn nhw deitl aruchel ond pobl y mae pawb yn troi atyn nhw am arweiniad. A hynny oherwydd eu deallusrwydd, eu profiad o fywyd, eu gallu i fynegi'r hyn y mae pawb yn ei deimlo sy'n iawn, a'u cadernid dan bwysau.

**7. Sut gwnest ti ysgrifennu am y rhyfel yn Rhodesia? Pam ysgrifennu am ymosodiad ar wersyll?**


Tri rheswm: roedd o'n un o'r pethau oedd yn digwydd yng nghyfnod y nofel, felly mi oedd yn gefndir dilys a diddorol; roedd hefyd angen dangos camau yng ngyrfa ac aeddfedu Owain – dydy o ddim yr un dyn yma ag ydy o'n ddiweddarach, yn Henffordd er enghraifft; roedd angen dechrau herio cred Owain yn y llwybr roedd o wedi ei ddewis. Mae sefyllfa'r *Bushmen*, Joshua er enghraifft, yn debyg i sefyllfa'r Cymry, ac mae Joshua'n hyderus y bydd o'n goroesi, ei fod o wrth uniaethu efo'i bobl ei hun yn dilyn y ffordd gywir. Mae hyn yn gwneud Owain yn flin oherwydd ei fod o'n ei daflu oddi ar ei echel.

Mae'r ymosodiad ar y gwersyll yn ymosodiad go iawn ac felly'n berthnasol i'r cyd-destun. Ond ei brif bwrpas fan hyn ydy cyflwyno elfen o ryfel go iawn i'r stori a thrwy hynny ddangos natur seicopathig y broses o ladd – er mwyn gwneud y pwynt bod hynny'n rhan o waith a meddylfryd Owain ar y pryd.

**8. Pam ysgrifennu am Ogledd Iwerddon?**

Roedd helynt Gogledd Iwerddon yn un arall o'r pethau oedd yn digwydd yng nghyfnod y nofel ac yn lle y bu'r *SAS* ar waith o'r dechrau i'r diwedd. Mi fyddai Owain, fel aelod o'r gatrawd, yn sicr o fod wedi treulio amser yno. Roedd hefyd yn gam arall yn ei yrfa a'i ddatblygiad fel person – dyma pryd mae ychydig o amheuaeth yn dechrau dod i'w feddwl. Dyna ydy arwyddocâd 'Canmol dy fro a thrig yno' ar ddiwedd y bennod – mae Owain wedi dewis ei ffordd, a beth bynnag sy'n digwydd iddo does ganddo ddim dewis ond ei dderbyn o.

Mae o hefyd yn rhan ganolog o 'blot' y stori. Yn gefndir i hyn, roedd Gogledd Iwerddon yn cael ei defnyddio gan 'rymoedd tywyll' o fewn y sefydliad Prydeinig i ansefydlogi gwleidyddiaeth Prydain (darllenwch, er enghraifft, hanes 'Operation Clockwork Orange'). Roedd dwy ran i'r ansefydlogi: hyrwyddo'r terfysg yng Ngogledd Iwerddon; a thanseilio hygrededd arweinwyr gwleidyddol Prydain. Y diben oedd symud y wlad yn wleidyddol i'r dde (ac mi lwyddon nhw, wrth gwrs, yn y pen draw). Rydw i o'r farn fod y llosgi tai haf a ddigwyddodd yng Nghymru, ac o bosib yr *ICF* a'u tebyg yn Lloegr hefyd, yn rhan o hyn. O dderbyn hynny mae o'n ddigon rhesymol mai yng Ngogledd Iwerddon y mae *base* Owain ar gyfer llosgi tai haf yng Nghymru (sef yr hyn mae o'n cyfeirio ato yn ei sgwrs efo Gwyn y noson cyn claddu Richard Lloyd).




O ran Symonds: yn dilyn llofruddiaeth y Gwyddel mae Symonds yn dod yn rhan o'r cynllwyn – dydy o ddim yn *expendable* fel y Cymro, Owain. Erbyn i Owain gyrraedd y Falklands mae o wedi bod yn llunio ei restr o bobl sy'n tanseilio'r drefn yng Ngogledd Iwerddon ac mae Symonds wedi ei anfon i Dde'r Iwerydd i gael gwared ohono. Yr ymgais gyntaf ydy gorchymyn y glanio ar rewfor De Georgia. Yr ail, a'r un llwyddiannus, ydy *sabotage*-io'r

hofrennydd trosglwyddo. Mae Symonds wedyn yn cael ei anfon i weld Gwyn, i weld a oes ganddo fo wybodaeth am ble mae rhestr Owain. Ond mae Owain wedi paratoi'n drylwyr, a nes bod Gwyn yn derbyn y cerdyn post o Bern, dydy o'n gwybod dim am na rhestr na chynllwyn.

**9. Lladdwyd Owain mewn 'damwain' hofrennydd yn y nofel. Wyt ti'n awgrymu ei fod wedi ei ladd yn fwriadol?**

Ydw. Pan fyddwch chi'n byw o dan yr un amodau â milwyr, yn arbennig amodau uned gudd fel yr *SAS*, allwch chi ddim celu eich symudiadau. Mi fyddai rhywun wedi sylwi bod rhywbeth yn od ambell waith yn symudiadau ac efallai cwestiynau Owain, neu yn fwy tebygol bod yna batrwm iddyn nhw a allai fod yn amheus. O ystyried hynny ochr yn ochr â'r potensial oedd gan Owain – fel llosgwr tai haf a oedd yn rhan o'r cynllwyn teyrnfradwrus – i ddinistrio'r cynllwyn a'r bobl a oedd yn rhan ohono, mi fyddai'n ddigon rhesymol dileu'r risg yr oedd o'n ei ymgorffori drwy drefnu damwain.

**10. Y mae damwain arall ar ddiwedd y nofel. Ydy'r ddamwain hon yn un fwriadol hefyd?**

Yn y nofel, ydy. Roedd Owain wedi llunio rhestr o bobl a oedd yn rhan o'r cynllwyn i ansefydlogi'r drefn wleidyddol, ac roedd nifer o'r rhain yng Ngogledd Iwerddon. Yn ystod ei ymweliad â Bern fe anfonodd Gwyn y rhestr at yr Americanwyr. Ar ddechrau pennod y ddamwain hon mae criw'r hofrennydd yn sôn bod yr Americanwyr bellach yn rhan o drafodaethau heddwch Gogledd Iwerddon, a'r awgrym ydy bod yr Americanwyr wedi cael gwared ar y swyddogion cudd. Mae'r bennod yn nodi sawl ffactor anarferol (gwir) yn yr amgylchiadau a arweiniodd at y ddamwain, a'r honiad felly (nid gen i ond mae o'n cyd-fynd yn dwt â gofynion y stori) ydy bod y swyddogion hyn wedi eu lladd er mwyn agor y ffordd i heddwch yng Ngogledd Iwerddon. (Cofier bod damwain go iawn wedi lladd mwy neu lai holl swyddogion gwasanaethau cudd Gogledd Iwerddon, a bod gwasanaethau cudd Gogledd Iwerddon wedi bod yn gysylltiedig â threfnu terfysg yno a oedd wedi rhwystro heddwch yn y gorffennol, a hefyd wedi bod yn rhan o'r cynllwyn i danseilio trefn wleidyddol Prydain). O ran y stori, rydw i wedi awgrymu mai gwybodaeth Owain a oedd yn gyfrifol am dargedu'r swyddogion yma.

# ADNABOD YR AWDUR

**11. Y mae dau frawd yn y nofel hon. Ydyn nhw'n cynrychioli rhywun neu rywbeth arbennig?**

Ydyn. Maen nhw'n cynrychioli Cymry ifanc cefn gwlad eu cyfnod. Gan mai nofel ydy hon gyda phwynt i'w wneud rydw i wedi symleiddio'r sefyllfa a gosod y ddau ar eithafion y dewis o lwybr bywyd. Yn fras, y dewis oedd naill ai'r hen ffordd Gymreig neu'r ffordd newydd Seisnig. Mae goblygiadau dewisiadau Owain a Gwyn yn eu hamlygu eu hunain wrth i'r ddau symud drwy eu bywydau ac aeddfedu.

**12. Beth yw prif themâu'r nofel hon?**

Un brif thema sydd i'r nofel: sut mae'r ddynoliaeth i oroesi. Mae sawl cyfeiriad yn y llyfr at rym natur a'r ffaith na all dyn orchfygu natur, waeth beth wnaiff o. Mae awgrym hefyd fod natur yn fwriadol greulon tuag at bobl sy'n ei herio. Mae'r awgrym cyntaf yng nghwymp Owain o'r hen griafolen yn y bennod gyntaf. Mae o i'w weld eto ar rewfor De Georgia, ond yn fwyaf amlwg yn y disgrifiad o wyntoedd Môr Pegwn y De. Yr hyn sy'n rhaid ei wneud felly i oroesi ydy dysgu cyd-fyw â natur. Dyma mae'r *Bushmen* wedi ei wneud. Dyma hefyd mae'r hen Gymry wedi ei wneud – roedd yn rhaid i mi ddefnyddio Cymry'r mynyddoedd, y Cymry sydd yn byw agosaf at natur, er mwyn i'r pwynt fod yn eglur.

Dyma mae Gwyn yn ei sylweddoli pan mae Richard Lloyd yn ei droi i edrych ar fwlch Maengwynedd ar noson y farchnad. Dyma ydy'r wers yn narlun curo'r ci ifanc: mae'n rhaid wrth ddisgyblaeth o fath arbennig i allu goroesi, ac os nad ydy'r ci/y ddynoliaeth yn dysgu hynny, fe gânt eu cosbi. Mae'r pwynt yn cael ei wneud droeon: yn y gwymp o'r goeden; yn hanes y ci; a hefyd yn yr hanes a nodir am Harri'r Ail – fe'i gorchfygwyd o gan gyfuniad o rym natur a phobl a oedd yn gwybod sut i fyw efo natur.

Mae Gwyn ac Owain yn cynrychioli'r ddwy ffordd o fyw – hynny ydy, y ffordd Gymreig draddodiadol a'r llwybr Eingl-Brydeinig. I gadarnhau'r pwynt ynghylch pa un sy'n gynaliadwy ac felly'n caniatáu goroesi, mae Gwyn yn byw (ac yn cael plant) ac Owain yn marw – sef yr union beth a fydd yn digwydd i'r ddynoliaeth os bydd yn parhau fel ag y mae. Mae hyn, wrth gwrs, yn ein symud yn y pen draw i faes cynhesu byd-eang ac ati.

# ADNABOD YR AWDUR

Is-themâu: dewis llwybr bywyd; gwrthdaro (sydd yn mynd i ddigwydd pa bynnag lwybr ddewiswch chi); cariad (o dan ba amgylchiadau mae hwnnw'n fwyaf tebygol o ffynnu? Cymharwch fywyd carwriaethol y ddau frawd); a gwrthsefyll grymoedd dinistriol (e.e. Gwyn yn y Llan, Owain a'i restr).

**13. Pa ran o'r nofel wnest ti fwynhau ei hysgrifennu fwyaf?**

Cyn belled â bod yna bwynt i ddarn roeddwn i'n ei ysgrifennu, roeddwn i'n mwynhau ei ysgrifennu o. A gan fy mod i wedi dileu'r darnau nad oedd unrhyw bwynt iddyn nhw, fe allech chi ddweud fy mod i wedi mwynhau ysgrifennu holl ddarnau'r nofel.

**14. Pa fudd wyt ti'n meddwl caiff disgyblion wrth ddarllen dy nofel di?**

Rydw i'n gobeithio y gwnaiff y nofel iddyn nhw feddwl am y penderfyniadau y mae'n rhaid iddyn nhw eu gwneud ar gyfer eu dyfodol. Rydw i'n gobeithio y gwelan nhw nad oes yna'r fath beth â bywyd hawdd, a bod gwneud yr hyn sy'n edrych yn hawdd ar y pryd – ac sydd yn aml iawn yn golygu dilyn y drefn – yn arwain at broblemau; ddim rhai mor ddramatig â rhai Owain efallai, ond rhai sydd yr un mor dyngedfennol. Mae dyfodol y byd yn nwylo'r disgyblion, bob un ohonyn nhw, waeth pwy ydyn nhw. Maen nhw'n fyw ac mae ganddyn nhw ran ym mywyd y byd. Mae'r penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud, yn unigol ac yn dorfol, yn mynd i lywio a lliwio'r math o fyd fydd ganddyn nhw a'r cenedlaethau sy'n eu dilyn nhw.

Rydw i hefyd yn gobeithio, yn gysylltiedig â hyn, y byddan nhw'n cwestiynu gwerth pethau fel twristiaeth; a phwrpas pethau fel rhyfel a therfysg; a faint o wirionedd sydd yn yr hyn mae'r cyfryngau sefydledig yn ei ddweud (neu yn hytrach a ydy'r fersiwn o'r gwirionedd y mae'r cyfryngau sefydledig yn ei roi i ni yn rhoi darlun teg neu ddarlun unochrog); ac yn fwy na dim yn cwestiynu hanes – yn arbennig hanes y Cymry – a gwneud hynny'n feirniadol gan chwilio i bob ochr o'r hyn a ddigwyddodd.

Y bwriad oedd ceisio cyflwyno hyn i gyd ar ffurf nofel ddarllenadwy a gweddol ddifyr.

**15. Beth yw arwyddocâd y teitl? Wyt ti'n awgrymu bod Owain yn cyfrif dim mewn gwirionedd i'r Awdurdodau a'n bod ninnau fel Cymry a Joshua a sawl cenedl arall yn cyfrif dim?**

Mae'r stori'n cynnig ein bod ni i gyd, mewn cymhariaeth â mawredd y bydysawd, yn ddim. Ond bod mwy nag un math o ddim: y dim sy'n bryfyn gloyw sy'n cyd-fynd â natur; a'r dim ydyn ni o dan drefn ddynol orchfygol, ymerodrol. Fe allwn ni ddewis y naill neu'r llall – mae goblygiadau i'r ddau – ond dim ond un sy'n cynnig parhad.

Yr ateb i'r ail ran ydy: ydw. Gwerinwr (*pawn*) ydy Owain. A gwerinwyr ydy pawb sydd ddim yn un o'r clic cyfoethog sy'n rhedeg y byd ar hyn o bryd.

**16. Mae'r lleoliadau yn y nofel yn rhai real go iawn. Beth am y digwyddiadau megis y cyfarfod yn Neuadd Llan?**

Mae pob un digwyddiad o bwys yn y nofel wedi digwydd. Roedd y cyfarfod yn Neuadd Llan yn ddigwyddiad go iawn. Rydw i wedi cyflwyno Gwyn iddo a symud dyddiad y cyfarfod ychydig flynyddoedd i'r dyfodol, wedi cynnal y rhan swyddogol ohono yn Gymraeg, a newid ambell enw, ond mae'r gweddill yn wir. Yn y cyfarfod go iawn, yr hyn a ddywedodd y Cynghorydd am y wraig a soniodd am werth twristiaeth a'i effeithiau andwyol megis y lladd ŵyn oedd: "*She's making it up.*" Ar hynny, fe gododd un o'r ffermwyr a oedd yno, un a oedd ag enw am fod ychydig yn wyllt, a dweud, "*No, Mrs... is right. I myself lost six lambs that Bank Holiday – all with burst hearts from being run by dogs.*" Ni roddwyd caniatâd i'r maes carafanau.

Mae rhai o'r digwyddiadau'n rhai rydw i wedi darllen amdanyn nhw'n unig a heb eu profi'n uniongyrchol. Ond mae pob un wedi digwydd. Ychydig iawn o ddychymyg sydd yn y nofel gan mai'r cyfan rydw i wedi ei wneud ydy cysylltu nifer o ddigwyddiadau o'r un oes gyda'i gilydd i wneud stori, ac i wneud pwynt.

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## Gwybodaeth a gweithgareddau am y cefndir

Dywedodd Twm Morys, 'Mae agor ambell stori fel mynd ar drafael i mi.' Wrth ddarllen *Dim* gan Dafydd Chilton byddwch yn trafeilio, neu'n teithio, cryn dipyn. Cewch fynd i Zimbabwe (Rhodesia), Gogledd Iwerddon, y Malvinas (Ynysoedd Falkland), ac i fannau gwahanol yng Nghymru a Lloegr. Byddwch yn dysgu cryn dipyn am y gwledydd hyn a beth oedd ymwneud Prydain â nhw. Bydd yr 'ymwneud' yma, efallai, yn eich dychryn. Mae ambell bennod fel golygfa o ffilm James Bond, ond cofiwch mai ffeithiau hanesyddol, ffeithiau go iawn sydd wrth wraidd y nofel hon. Mae hyn yn rhoi mwy o ias i'r darllen.

Mae'r stori'n dechrau yng Nghwm Llawenog, Dyffryn Ceiriog yng ngogledd ddwyrain Cymru ac yn dilyn hanes dau frawd, sef Owain a Gwyn. Maen nhw'n byw yn ail hanner yr ugeinfed ganrif ac mae'r byd y maen nhw'n byw ynddo yn fyd cythryblus. Y ddau frawd yma fydd yn cyd-deithio â chi. Nid yw bywyd wedi bod yn garedig iawn wrthyn nhw – collodd y ddau eu rhieni yn ifanc. Mae bywyd hefyd yn eu gorfodi i wneud dewisiadau anodd tra oedden nhw yn yr ysgol, yn eu gwaith a'u bywyd personol, ac mae'r dewisiadau hyn yn profi i fod yn rhai tyngedfennol.

Byddwch yn cael eich tynnu bob sut wrth ddarllen hynt a helynt Owain a Gwyn. Bydd llu o gwestiynau yn corddi yn eich meddwl wrth i chi ddarllen amdanynt megis: Pa frawd yw'r dewraf? Pa frawd sydd yn haeddu eich cydymdeimlad? Yna wrth gwestiynu cewch eich arwain yn raddol i fyd yr *SAS*, i fyd twyll, i fyd o brotestio, a byddwch yn sylweddoli fod yna bethau yn digwydd yn y byd, yn eich gwlad ac yn eich milltir sgwâr chi eich hun, na wyddoch chi ddim amdanynt. Yna wedi darllen am fyd Owain a Gwyn byddwch yn dod i ddeall mwy am y byd rydych chi yn byw ynddo, heddiw, rŵan, nawr.

Y cwestiwn mawr ydy – ydych chi'n barod i wynebu hynny? Os ydych – darllenwch *Dim*.

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## Llinell Amser

Mae'n bwysig eich bod yn deall am gefndir rhai o ddigwyddiadau pwysig y nofel hon:


| PRYD | LLE | DIGWYDDIAD |
|---|---|---|
| 1978-1979 | Cymru | Myfyrwyr Coleg y Brifysgol, Bangor yn protestio |
| 1979 | Cymru | Y Refferendwm Datganoli |
| 1979-1982 | Cymru | Ymgyrch 'Meibion Glyndŵr' yn llosgi tai haf |
| 1978-1979 | Rhodesia (Zimbabwe heddiw) | Ymladd yn Rhodesia |
| 1960-1998 | Gogledd Iwerddon | Y Fyddin Brydeinig yng Ngogledd Iwerddon yn cadw'r heddwch. |
| 1982 | Y Malvinas | Rhyfel rhwng lluoedd Ynysoedd Prydain a'r Ariannin |

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## Deall mwy am y cefndir

### Cymru

| | | |
|---|---|---|
| 1978-1979 | Cymru | Myfyrwyr Coleg y Brifysgol, Bangor yn protestio t.31 |



# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

**1. Pam roedd myfyrwyr yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor yn protestio?**

Roedden nhw'n protestio am fod awdurdodau'r Coleg yn bwriadu ehangu'r Coleg.(ehangu: gwneud y Coleg yn fwy/ cynyddu nifer y myfyrwyr)

**2. Pam roedd y myfyrwyr yn gwrthwynebu (yn erbyn) ehangu?**

Roedd y myfyrwyr yn gweld hyn yn fygythiad i Gymreictod y Coleg. Roedd y Coleg hefyd yn cyflogi rhai o 'Gymraeg-gasawyr mwyaf gwenwynig Gwynedd' (t. 31) ac roedd hyn yn ôl y myfyrwyr yn dangos agwedd elyniaethus y Coleg at y Gymraeg.

**3. Sut gwnaeth y myfyrwyr brotestio?**

Am dri diwrnod bu'r myfyrwyr yn meddiannu Adeilad y Celfyddydau yn y Coleg. Mi lwyddon nhw i rwystro awdurdodau'r Coleg rhag mynd i'r adeilad.

**4. Sut gwnaethon nhw rwystro'r awdurdodau rhag mynd i'r adeilad?**

Rhoddwyd cloeon clap ar y drysau a'u cloi.

**5. A wnaeth y myfyrwyr rywbeth arall?**

Do. Rhoddodd y myfyrwyr lawer o ffeiliau gweinyddol y Coleg mewn bagiau bin du a'u cludo o'r adeilad.

**6. Beth ddigwyddodd wedyn?**

Bu'r heddlu yn chwilio am y bagiau a'r ffeiliau hyn. Cafodd nifer o fyfyrwyr eu harestio ac aeth yr heddlu i archwilio eu cartrefi am y ffeiliau.

| | |
|---|---|
| Yn y nofel: Pen. 3 tt. 29-40 | Mae Gwyn yn fyfyriwr ym Mangor yn ystod y cyfnod hwn. Aeth yr heddlu i'w gartref i chwilio am y ffeiliau. Cafodd Gwyn ei arestio ac aethpwyd ag ef i Swyddfa'r Heddlu ym Mangor i'w holi am y digwyddiad. |

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## Deall mwy am y cefndir

**Cymru** **Gweithgaredd**

| | | |
|---|---|---|
| 1978-1979 | Cymru | Myfyrwyr Coleg y Brifysgol, Bangor yn protestio t.31 |

Darllenwch y darn a chrynhoi'r prif bwyntiau:

**Beth ydw i wedi'i ddysgu:**

**Pryd?**

**Pwy?**

**Pam?**

**Beth?**


# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## Deall mwy am y cefndir

### Cymru

| | | |
|---|---|---|
| 1979 | Cymru | Y Refferendwm Datganoli |




### Ffeil-o-ffeithiau

1. Yn 1979 bu Refferendwm (pobl yn pleidleisio) yng Nghymru.
2. Aeth Cymru i bleidleisio ‘IE’ neu ‘NA’ er mwyn penderfynu a ddylid sefydlu Senedd Gymreig.
3. Llywodraeth Lafur oedd yng Nghymru yn 1979.
4. Yr oedd pobl fel Neil Kinnock a George Thomas, a oedd yn aelodau o’r Blaid Lafur, yn cefnogi’r ymgyrch ‘NA’. Y mae cyfeiriad atynt ym mhennod 10, t. 99.
5. Yn 1979 pleidleisiwyd ‘NA’. Doedd pobl Cymru ddim eisiau Senedd i Gymru.

Er gwybodaeth: Yn 1997 pleidleisiodd pobl Cymru eto a phleidleisio **<u>o blaid</u>** cael Senedd.

| | |
|---|---|
| Yn y nofel:<br>Pen. 5<br>tt. 54-55 | Yn y nofel mae Gwyn yn cefnogi’r ymgyrch Datganoli a bu’n dosbarthu taflenni ‘IE’. |

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## Deall mwy am y cefndir

**Cymru** **Gweithgaredd**

| | | |
|---|---|---|
| 1979 | Cymru | Ymgyrch Meibion Glyndŵr yn llosgi tai haf |

Ar ôl darllen y wybodaeth ewch ati i grynhoi'r prif bwyntiau:

**Beth ydw i wedi'i ddysgu:**

**Pryd?**

**Pam?**

**Beth?**


**Ymchwilio ar fy liwt fy hun:**

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## Deall mwy am y cefndir

### Cymru

| | | |
|---|---|---|
| 1979 | Cymru | Ymgyrch Meibion Glyndŵr yn llosgi tai haf tt. 99-100 |



**1. Pryd roedd Meibion Glyndŵr yn llosgi tai haf yng Nghymru?**
Ar ddiwedd y saithdegau bu mudiad o'r enw 'Meibion Glyndŵr' yn llosgi tai haf yng Nghymru.

**2. Ym mhle llosgwyd y tŷ haf cyntaf?**
Llosgwyd y cyntaf ym Mynydd Nefyn ym Mhen Llŷn ar y 12fed o Ragfyr yn 1979.

**3. Am faint roedd yr ymgyrch / y llosgi wedi parhau?**
Parhaodd yr ymgyrch i'r wythdegau.

**4. Pam roedd tai haf yn cael eu llosgi?**
Roedd drwgdeimlad bod pobl o'r tu allan yn prynu tai yng nghefn gwlad Cymru a'u defnyddio fel cartrefi gwyliau. Roedd prisiau tai hefyd yn afresymol o uchel am fod pobl o'r tu allan yn talu pris uchel am dŷ. O ganlyniad doedd pobl leol ddim yn gallu fforddio prynu tai yn eu hardal eu hunain.

**5. A gafodd Meibion Glyndŵr eu dal?**
Cafodd rhai eu harestio ar ddechrau'r nawdegau ond mae dirgelwch o hyd pwy oedd Meibion Glyndŵr.

| | |
|---|---|
| Yn y nofel: Pen. 10 t. 99 | Y mae Owain yn holi ei frawd Gwyn am losgi tai haf. |

18

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## Deall mwy am y cefndir

**Cymru** **Gweithgaredd**

| | | |
|---|---|---|
| 1979 | Cymru | Ymgyrch Meibion Glyndŵr yn llosgi tai haf |

Ar ôl darllen yr wybodaeth ewch ati i grynhoi'r prif bwyntiau:

**Beth ydw i wedi'i ddysgu:**

**Pryd?**

**Pam?**


**Beth?**

**Pwy?**

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## Deall mwy am y cefndir

## Gogledd Iwerddon




**LLE:** Gogledd Iwerddon

**PRYD:** O ddiwedd y 1960au hyd at Gytundeb Dydd Gwener y Groglith yn 1998.

**PWY:** Yr oedd tair carfan (grŵp o bobl) yn y gwrthdaro.

## CARFAN 1

**Lluoedd Diogelwch Prydain a Gweriniaeth Iwerddon**

- ***RUC*** – Heddlu *RUC*, sef *Royal Ulster Constabulary*. Dyma'r enw ar yr heddlu yng Ngogledd Iwerddon. Roedden nhw'n ochri mwy gyda'r Unoliaethwyr ac yn cydweithio â mudiadau paramilwrol fel yr *SAS*.
- ***UDR*** – sef yr *Ulster Defence Regiment*. Dyma filwyr troed y Fyddin Brydeinig. Eu pwrpas oedd gwarchod bywydau ac eiddo yng Ngogledd Iwerddon. Cyhuddwyd nhw o fod yn bleidiol (o blaid) i'r Unoliaethwyr.

## CARFAN 2

**Gweriniaethwyr Gwyddelig** (yn cynnwys yr *IRA – Irish Republican Army* sef y *Provos*).

- Catholigion oedd y rhan fwyaf ohonynt. Roedden nhw eisiau i Ogledd Iwerddon fod yn rhydd o Brydain ac yn rhan o Iwerddon.
- ***IRA*** (*Provos / Provisional IRA*). Roedden nhw'n ymladd yn erbyn yr *UDR / UVF* a'r *UDA*.
- Roedden nhw'n defnyddio tactegau ymladd guerilla (*guerilla warfare*).

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## CARFAN 3

**Unoliaethwyr** – sef yr ***UDA***, yr *Ulster Defence Association*, a'r ***UVF***, yr *Ulster Volunteer Force*.

- Roedden nhw eisiau i Ogledd Iwerddon fod yn rhan o Brydain. Protestaniaid oedd y rhan fwyaf ohonynt.

**PAM?**

Roedd y Gweriniaethwyr Gwyddelig (Catholigion yn bennaf) eisiau i Ogledd Iwerddon fod yn annibynnol o Brydain ac yn rhan o Weriniaeth Iwerddon.

Roedd yr Unoliaethwyr (Protestaniaid yn bennaf) am i Ogledd Iwerddon barhau i fod yn rhan o Brydain.

**BETH?**

Bu brwydro mawr ar draws Gogledd Iwerddon rhwng y cymunedau Catholig (y Gweriniaethwyr) a'r cymunedau Protestannaidd (yr Unoliaethwyr).

Ymledodd y gwrthdaro i Loegr ac i Weriniaeth Iwerddon.

| | |
|---|---|
| Yn y nofel:<br>Pen. 4<br>tt. 46-49<br>Pen. 6<br>tt. 60-62 | Y mae Owain fel aelod o'r *SAS* yn cael ei ddanfon i Ogledd Iwerddon. |

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## Deall mwy am y cefndir

## Gogledd Iwerddon

## Gweithgaredd

**TASG:** Dwyn i gof
**TESTUN:** Yr Helyntion yng Ngogledd Iwerddon

Atebwch y cwestiynau i gyd:

**1. Prifddinas Gweriniaeth Iwerddon yw:**

| | Ticiwch un |
|---|---|
| Belfast | ☐ |
| Cork | ☐ |
| Dulyn | ☐ |
| Leith | ☐ |

**2. Prifddinas Gogledd Iwerddon yw:**

| | Ticiwch un |
|---|---|
| Cork | ☐ |
| Dulyn | ☐ |
| Llundain | ☐ |
| Belfast | ☐ |

**3. Dewiswch yr enwau cywir sy'n cyd-fynd â'r teitl. Ticiwch ddau bob tro.**

**Unoliaethwyr**

| | |
|---|---|
| Catholigion | ☐ |
| Protestaniaid | ☐ |
| am fod yn rhan o Weriniaeth Iwerddon | ☐ |
| am fod yn rhan o Brydain | ☐ |

**Gweriniaethwyr**

| | |
|---|---|
| Catholigion | ☐ |
| Protestaniaid | ☐ |
| am fod yn rhan o Weriniaeth Iwerddon | ☐ |
| am fod yn rhan o Brydain | ☐ |

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

**4. Tynnwch linell i gysylltu'r canlynol:**

| | |
|---|---|
| *UDA* | *Ulster Volunteers* |
| *UDR* | *Ulster Defence Association* |
| *RUC* | *Ulster Defence Regiment* |
| *UVF* | *Royal Ulster Constabulary* |

**5. Ticiwch 'Cywir' neu 'Anghywir' ar gyfer pob brawddeg:**

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Roedd yr *UDA* a'r *UVF* eisiau i Ogledd Iwerddon fod yn rhan o Weriniaeth Iwerddon. | | |
| Roedd yr *UDA* a'r *UVF* eisiau i Ogledd Iwerddon fod yn rhan o Brydain. | | |
| Roedd yr *RHC* yn cael eu cyhuddo o ochri mwy gyda'r Unoliaethwyr. | | |
| Enw arall ar yr *IRA* oedd y *Provos*. | | |

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## Deall mwy am y cefndir

Atebion

## Gogledd Iwerddon

**TASG**: Dwyn i gof
**TESTUN**: Yr Helyntion yng Ngogledd Iwerddon

Atebwch y cwestiynau i gyd:

**1. Prifddinas Gweriniaeth Iwerddon yw:**

| | Ticiwch un |
|---|---|
| Belfast | ☐ |
| Cork | ☐ |
| Dulyn | ☑ |
| Leith | ☐ |

**2. Prifddinas Gogledd Iwerddon yw:**

| | Ticiwch un |
|---|---|
| Cork | ☐ |
| Dulyn | ☐ |
| Llundain | ☐ |
| Belfast | ☑ |

**3. Dewiswch yr enwau cywir sy'n cyd-fynd â'r teitl. Ticiwch ddau bob tro.**


**Unoliaethwyr**

| | |
|---|---|
| Catholigion | ☐ |
| Protestaniaid | ☑ |
| am fod yn rhan o Weriniaeth Iwerddon | ☐ |
| am fod yn rhan o Brydain | ☑ |

**Gweriniaethwyr**

| | |
|---|---|
| Catholigion | ☑ |
| Protestaniaid | ☐ |
| am fod yn rhan o Weriniaeth Iwerddon | ☑ |
| am fod yn rhan o Brydain | ☐ |

**4. Tynnwch linell i gysylltu'r canlynol:**




**5. Ticiwch 'Cywir' neu 'Anghywir' ar gyfer pob brawddeg:**

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Roedd yr *UDA* a'r *UVF* eisiau i Ogledd Iwerddon fod yn rhan o Weriniaeth Iwerddon. | | ✓ |
| Roedd yr *UDA* a'r *UVF* eisiau i Ogledd Iwerddon fod yn rhan o Brydain. | ✓ | |
| Roedd yr *RHC* yn cael eu cyhuddo o ochri mwy gyda'r Unoliaethwyr. | ✓ | |
| Enw arall ar yr *IRA* oedd y *Provos*. | ✓ | |

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## Deall mwy am y cefndir

## Rhodesia

| | | |
|---|---|---|
| 1978-1979 | Rhodesia (Zimbabwe) | Pam mae Owain yn Rhodesia? |

**CYFFREDINOL**

- Galwyd Rhodesia ar ôl Cecil Rhodes, dyn gwyn a Sais a aeth yno i fwyngloddio yn 1870.
- Roedd y wlad wedi'i choloneiddio gan Brydain rhwng 1923-1980.
- 1980 – Ar ôl brwydro ffyrnig daeth Rhodesia yn wlad annibynnol – a daeth ymyrraeth Prydain i ben.
- 1980 – Newidiwyd enw'r wlad i Weriniaeth Zimbabwe.

**PWY OEDD ROBERT MUGABE?**

- Teimlai Mugabe fod pobl Rhodesia yn cael eu gorthrymu gan y deddfau roedd Prydain wedi'u gosod ar y wlad. Roedd Mugabe yn gwrthwynebu coloneiddio. Hefyd teimlai fod pobl y wlad yn cael eu trin yn annheg, e.e. doedd pobl groenddu ddim yn cael yr un cyfleoedd â'r dyn gwyn i gael addysg a gwaith. Teimlai nad oedden nhw'n cael hawliau yn eu gwlad eu hunain.
- Roedd Mugabe yn Farcsydd (yn dilyn syniadaeth Karl Marx). Credai mewn darparu cyfleoedd i bobl gyffredin gael addysg.
- Roedd Mugabe eisiau i'w wlad fod yn wlad annibynnol ac yn rhydd oddi wrth ymyrraeth Prydain.

* Mugabe erbyn hyn yw arlywydd Zimbabwe, ac mae ei ffordd yntau o arwain y wlad yn cael ei chwestiynu.

**ZANLA**

- *ZANLA* yw'r *Zimbabwe African National Liberation Army*.
- Buon nhw'n ymladd Rhyfel y *Bush* yn Zimbabwe.
- Rhyfel oedd hwn yn erbyn y dyn gwyn oedd yn rheoli'r wlad.
- Roedd Robert Mugabe yn un o arweinyddion y *ZANLA*.
- Roedd y *ZANLA* yn recriwtio o lwythau / grwpiau ethnig fel y Ghana.

| | |
|---|---|
| Yn y nofel<br><br>Pen. 4<br>tt. 41-46 | Mae Owain yn aelod o'r *SAS*. Tua 1978 / 79 aeth i Zimbabwe i gynorthwyo Prydain yn erbyn Robert Mugabe. Dyma aseiniad cyntaf Owain gyda'r *SAS*. |

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## Deall mwy am y cefndir

**Y Byd**
**Rhodesia, 1978-1979**

**Gweithgaredd**

### TASG

1. **Ticiwch 'Cywir' neu 'Anghywir' ar gyfer pob brawddeg:**

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Yr hen enw ar Zimbabwe oedd Rhodesia. | ✓ | |
| Yn y nofel hon roedd y wlad yn cael ei hadnabod fel Rhodesia. | | |
| Roedd Rhodesia wedi ei choloneiddio gan Brydain ers 1923. | | |
| Daeth Rhodesia yn rhydd o afael Prydain yn 1980. | | |

2. **Beth oedd enw arweinwyr y ZANLA?**

3. **Beth oedd y ZANLA?**

Ticiwch un:

*Zimbabwe Army* ☐
*Zimbabwe League* ☐
*Zimbabwe African National Liberation Army* ☐

4. **Pam aeth Owain i Rhodesia?**

Am ei fod yn hoff o deithio ☐
Am ei fod yn aelod o'r fyddin ☐
Am ei fod yn aelod o'r *SAS* ☐
Am ei fod yn aelod o'r *SAS* ac aeth i gynorthwyo Prydain a brwydro yn erbyn y *ZANLAs*. ☐

5. **Beth oedd Mugabe yn ymgyrchu drosto? Nodwch ddau beth.**

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## Deall mwy am y cefndir

**Y Byd**
**Rhodesia, 1978-1979**

**Atebion**

**TASG**

**1. Ticiwch 'Cywir' neu 'Anghywir' ar gyfer pob brawddeg:**

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Yr hen enw ar Zimbabwe oedd Rhodesia. | ✓ | |
| Yn y nofel hon roedd y wlad yn cael ei hadnabod fel Rhodesia. | ✓ | |
| Roedd Rhodesia wedi ei choloneiddio gan Brydain ers 1923. | ✓ | |
| Daeth Rhodesia yn rhydd o afael Prydain yn 1980. | ✓ | |

**2. Beth oedd enw arweinwyr y ZANLA?**

Robert Mugabe

**3. Beth oedd y ZANLA?**

Ticiwch un:

- *Zimbabwe Army* ☐
- *Zimbabwe League* ☐
- *Zimbabwe African National Liberation Army* ✓

**4. Pam aeth Owain i Rhodesia?**

- Am ei fod yn hoff o deithio ☐
- Am ei fod yn aelod o'r fyddin ☐
- Am ei fod yn aelod o'r *SAS* ☐
- Am ei fod yn aelod o'r *SAS* ac aeth i gynorthwyo Prydain a brwydro yn erbyn y *ZANLAs*. ✓

**5. Beth oedd Mugabe yn ymgyrchu drosto? Nodwch ddau beth.**

- Roedd yn credu mewn darparu addysg i bobl gyffredin ei wlad.
- Roedd eisiau i'w wlad fod yn wlad annibynnol ac yn rhydd oddi wrth ymyrraeth Prydain.

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## Dod i ddeall mwy am y cefndir

### Y Byd
**Rhyfel y Malvinas/Ynysoedd Falkland 1982**

**Gwybodaeth**

| | |
|---|---|
| **Pwy?** | Rhyfel rhwng Prydain a'r Ariannin |
| **Lle?** | Yn Ynysoedd Falkland (enw arall yw'r Malvinas). Mae'r ynysoedd hyn yn Ne Cefnfor yr Iwerydd rhyw 300 milltir oddi ar arfordir yr Ariannin. Maen nhw'n cynnwys dwy brif ynys a 776 o ynysoedd llai. |
| **Pam?** | Mae hanes cymhleth wedi bod i'r Malvinas, gyda Ffrainc, Sbaen, yr Ariannin a Phrydain yn hawlio mai nhw oedd piau nhw.<br>Yn 1833 cymerodd Prydain yr ynysoedd trwy rym a'u troi'n wladfa Brydeinig ond ers hynny mae'r Ariannin wedi hawlio mai nhw piau'r ynysoedd. |
| **Pryd?**<br><br>**Sut?** | • Ebrill 2, 1982: Yr Ariannin yn goresgyn yr ynysoedd.<br>• Anfonodd Llywodraeth Prydain lynges gyda milwyr ac awyrennau i'r Ynysoedd i'w hail-gipio. Margaret Thatcher oedd y Prif Weinidog ar y pryd.<br>• Mehefin 14, 1982: Roedd y Malvinas yn ôl ym meddiant Prydain. |
| **Beth?** | **Prydain** – Collodd 257 eu bywydau. Anafwyd a suddwyd y Syr Galahad, llong Prydain, gan awyrennau Ariannin.<br>**Ariannin** – Collodd 649 eu bywydau. Anafwyd 1,068. Suddwyd llong o'r enw y General Belgrano gan long danfor Brydeinig.<br><br>Roedd y rhyfel yn unigryw gan fod siaradwyr Cymraeg yn ymladd yn erbyn ei gilydd. Cymry Cymraeg o Gymru yn erbyn Archentwyr Cymraeg y Wladfa. |
| Yn y nofel<br><br>Pen. 11 tt. 102-107 | Y mae 'Rhyfel y Falklands' ar fin dechrau ac y mae Owain fel aelod o'r *SAS* wedi ei anfon i Rewlif Fortuna sydd yn Ne Georgia oedd yn rhan o'r Ynysoedd Falkland.<br>Y mae cyfeiriad yn y nofel at harbwr Leith oedd yn Ne Georgia. Roedd yr Ariannin wedi codi baner yr Ariannin dros y dref a dyna ddechrau 'Rhyfel y Falklands'. |

# Y CYMERIADAU

**TASG 1: Ewch ati i chwilio am rai dyfyniadau fydd yn cadarnhau'r ffeithiau am y cymeriadau.**

**ALLWEDD**
Cymeriadau sy'n gysylltiedig ag Owain a Gwyn (glas)
Cymeriadau sy'n gysylltiedig â Gwyn (du)
Cymeriadau sy'n gysylltiedig ag Owain (coch)

| ENW | MANYLION | DYFYNIAD |
|---|---|---|
| Gwyn Lloyd | Y brawd hynaf. Y mae'n un ar ddeg oed ar ddechrau'r nofel. Mae'n aros gartref i ffermio. | |
| John Owain Lloyd | Y mae Owain yn 10 oed ar ddechrau'r nofel. Daw'n aelod o'r *SAS*. | |
| Richard Lloyd, Blaencwm | Ewythr y bechgyn. Mae'n frawd mawr i Emrys Lloyd, eu tad. Bu farw Emrys wrth ddisgyn o ben tas wair ar slabiau carreg las yr hen lawr dyrnu. t. 10 | |
| Enid Lloyd, Blaencwm | Modryb y bechgyn. Gwraig Richard Lloyd. Bu'n helpu Emrys am gyfnod i fagu'r bechgyn ar ôl i Margaret eu mam farw ar ôl rhoi genedigaeth i Owain.<br><br>Aeth Gwyn ac Owain i fyw i Flaencwm at Richard ac Enid ar ôl marwolaeth eu tad. t. 10 | |

# Y CYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| Alistair Watts | Un o giang-feistri dosbarth Gwyn yn Ysgol Dre. Bu ef a Gwyn yn ymladd yn yr ysgol.<br>tt. 18-19 | |
| Dunning | Un o fêts Alistair Watts.<br><br>Ef blannodd ei esgid yn ffêr Gwyn yn yr *assembly* a'i gael i helbul.<br>t. 26 | |
| Dai Lewis | Prifathro newydd Ysgol Dre. Mab i siopwr ac o Gaernarfon yn wreiddiol – ond doedd ganddo ddim byd i'w ddweud wrth Gaernarfon a'i filltir sgwâr.<br><br>Fe alwodd Gwyn yn '*ignorant Welsh insect*' yn yr *assembly*; ac o bosibl, fe roddodd grasfa i Gwyn ar ôl hynny. Yn fuan wedyn daeth Prifathro newydd i'r ysgol. Awgrymir bod Dai Lewis wedi cael ei ddiswyddo.<br>tt. 23-28 | |

# Y CYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| Elwyn | 'Un o'r *Wombles*' – criw glanhawyr a thirmyn yr ysgol.<br><br>Ef gliriodd nythod y gwenoliaid fu'n nythu o dan y bondo yn yr ysgol.<br>tt. 20-21 | |
| Dau heddwas | Daeth y ddau i Flaencwm ac arestio Gwyn yn sgil y protestio yng Ngholeg Bangor. Buon nhw'n archwilio Blaencwm am ffeiliau wedi'u dwyn o'r Coleg.<br>tt. 32-33 | |
| Padfield | Aelod o'r *Cadets* gydag Owain. Mae'n hoffi dweud pethau i gynhyrfu pobl a chael sylw. Roedd yn ddilornus o'r myfyrwyr fu'n protestio yng Ngholeg Bangor.<br>tt. 37-38 | |
| Joshua | *Bushman* – un o lwyth yr *Amasili*. Bu Owain yn sgwrsio ag ef tra roedd yn Rhodesia.<br><br>Gwnaeth argraff arno.<br>tt. 43-46 | |
| Gyrrwr lori lefrith | Un o'r *UDR* yn Armagh, Gogledd Iwerddon.<br>t.47 | |

# Y CYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| Y tri dyn yn y Cortina llwyd | Lladdwyd y tri yn Armagh gan Owain a'r tîm. tt. 47-48 | |
| Y Gwyddel yn Nulyn | Bu Gwyn yn siarad ag ef ar ôl gêm Rygbi, sef Pencampwriaeth y Pum Gwlad.<br><br>Fe soniodd am eu dulliau treisgar o ymladd a dangos gwn i Gwyn. t. 52. | |
| Armon Morris | Cadeirydd Cymdeithas y Defaid Mynydd. Un o ffrindiau Richard Lloyd. Cymro cymwynasgar. Bu'n siarad â Gwyn yn y sêl. tt. 52-54 | |
| Tenant Cyrn y Bwch, Selattyn, un o ffermydd stad Brogyntyn | Ef daflodd bamffledi 'Ie' Gwyn a'i alw'n '*Welsh Nash*' yn y sêl. tt. 54-55 | |

# Y CYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| Symonds | Roedd yn Armagh gydag Owain, un o'r *SAS*.<br><br>Ymosododd ar 'O' Leary' yn y fynwent gydag Owain.<br>tt. 60-61<br><br>Mae yn ei gyfarfod wedyn yn y Falklands.<br><br>Mae'n Swyddog *Intelligence* newydd ar y cwch yno. Roedd yn anghyfforddus pan welodd Owain.<br>tt. 106-107<br><br>Daeth i Flaencwm ar ôl i Owain farw i ddychwelyd ei eiddo a chydymdeimlo â Gwyn.<br>t. 121 | |
| Captain Hammond | Gweithio i *Army Intelligence*. Ef ddywedodd fod Owain wedi lladd y dyn anghywir. Liam McLochlain laddwyd nid Dermott Anthony O'Leary, un o'r *Provos* (*IRA*).<br>tt. 61-62 | |
| Liam McLochlain | Lladdwyd ef mewn camgymeriad gan Owain a Symonds.<br>tt. 61-62 | |

# Y CYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| Merch yn ystod Hyfforddiant Owain | Un o dîm fu'n hyfforddi Owain i fod yn yr *SAS*. tt. 65-69. | |
| Elisabeth Hughes, Glanrafon | Bu Gwyn a'i chymdogion yn hel mynydd iddi – (sef hel y defaid o'r mynydd at y dolydd). Gwraig Edward Hughes, Glanrafon. t. 73 | |
| Edwart Hughes, Glanafon | Gŵr Elisabeth Hughes. Gwelodd Gwyn a Richard Lloyd ef yn 'ffustio' ei gi – er mawr sioc iddo.<br><br>'Ci ifanc… yn meddwl bod y byd yn faes chwarae iddo' – dyna'i reswm dros guro. Geiriau symbolaidd llawn ystyr yw'r rhain. t. 78 | |
| Paul Longshaw | Mae Owain yn ei gyfarfod yn Llundain.<br><br>Ef gynigiodd waith i Owain a 'chyfnod sabothol' – fel un oedd i gasglu gwybodaeth am Feibion Glyndŵr. tt. 81-85 | |
| Wilson | 'Porthor' arfog bygythiol Longshaw. tt. 80-81; t. 84 | |

# Y CYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| Erfyl Roberts | Gweinidog Capel Llywarch. Mae Gwyn yn mynd i'r Gwasanaeth Diolchgarwch.<br>tt. 89-91 | |
| Rhian Fedw | Hogan dlws bryd tywyll. Mae'n hel casgliad yn y capel gyda'i ffrind Siân Dolwen. Aeth i Ysgol Llangollen nid i Ysgol Dre.<br>tt. 92-93<br><br>Gwraig Gwyn.<br>tt. 132-133; 138-139 | |
| Beryl Ifans, Pentre | Mae Rhian, Siân a Gwyn yn ei helpu i gario cynnyrch Diolchgarwch y capel i'w char er mwyn mynd â nhw i Cheshire Home ac i Ysbyty'r Waun.<br>t. 93 | |

# Y CYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| Jeff Carrier | Prynodd Gwmdiddos.<br><br>Rheolwr Canolfan Hamdden o Wolverhampton.<br><br>Daw i Gwmdiddos i ymlacio ar benwythnos.<br><br>Ef sydd eisiau troi hen adeiladau a chwarel y Granet ger Cwmdiddos yn westy / maes carafanau / sba.<br><br>Mae Gwyn yn anghytuno ag ef mewn cyfarfod yn Neuadd y Dyffryn.<br>tt. 108-116 | |
| Ieuan Morris | Cadeirydd y Cyngor Cymuned<br><br>Cadeirydd y Cyfarfod yn y Neuadd pan oedd Jeff Carrier yn cynnig troi'r chwarel yn sba.<br>tt. 109-116 | |
| Swyddog Cynllunio'r Sir | Dyn bychan crwn / 40 oed.<br><br>Yn y cyfarfod yn y Neuadd Bentref. | |

# Y CYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| Edward (Eddie Jones) | Aelod o'r Blaid Lafur.<br><br>Mwstás bach / gwallt Brylcreem.<br><br>Siarad yn Saesneg yn y cyfarfod.<br><br>Cefnogi cynnig Jeff Carrier.<br><br>Gwyn yn ei wrthwynebu.<br>tt. 109-111 | |
| Morus Ifans, Cwm y Gyr | Byw yn y Cwm. Ffermwr.<br><br>Siarad yn y cyfarfod – gofyn a oedd gan rywun ffordd ymlaen o ran ategu incwm ffermwyr.<br>t. 111 | |
| Julius Brandli | Gweithio ym Manc Ernst Brandli & Co A.G. yn Bern, Swistir.<br>Ef roddodd yr amlen wen a llythyr gan Owain i Gwyn.<br>tt.123-126; 131-132 | |
| Tanner a Rickard | Peilotiaid yr hofrennydd *Mark 2* a aeth yn erbyn Kintyre. Roedd yr hofrennydd yn cario *VIPs* – pobl y Gwasanaethau Cudd / *Intelligence*.<br>tt. 134-137 | |
| Jackson | Criwmon y *Mark 2*.<br>tt. 134-137 | |

# Y CYMERIADAU

## A fedrwch chi lenwi'r bylchau?

**TASG 2**: **Dwyn i gof**

**ALLWEDD**
Cymeriadau sy'n gysylltiedig ag Owain a Gwyn (glas)
Cymeriadau sy'n gysylltiedig â Gwyn (du)
Cymeriadau sy'n gysylltiedig ag Owain (coch)

| | |
|---|---|
| Gwyn Lloyd | |
| John Owain Lloyd | |
| Richard Lloyd, Blaencwm | |
| | Modryb y bechgyn. Gwraig Richard Lloyd. Bu'n helpu Emrys am gyfnod i fagu'r bechgyn ar ôl i Margaret eu mam farw ar ôl rhoi genedigaeth i Owain.<br><br>Aeth Gwyn ac Owain i fyw i Flaencwm at Richard ac Enid ar ôl marwolaeth eu tad.<br>t. 10 |
| | Un o giang-feistri dosbarth Gwyn yn Ysgol Dre. Bu ef a Gwyn yn cwffio yn yr ysgol.<br>tt. 18-19 |
| | Un o fêts Alistair Watts.<br>Ef blannodd ei esgid yn ffêr Gwyn yn yr *assembly* a'i gael i helbul.<br>t. 26 |
| Dai Lewis | |
| Elwyn | |

# Y CYMERIADAU

## A fedrwch chi lenwi'r bylchau?

| | |
|---|---|
| Dau heddwas | |
| | Aelod o'r *Cadets* gydag Owain. Mae'n hoffi dweud pethau i gynhyrfu pobl a chael sylw. Roedd yn ddilornus o'r myfyrwyr fu'n protestio yng Ngholeg Bangor. tt. 37-38 |
| | *Bushman* – un o lwyth yr *Amasili*. Bu Owain yn sgwrsio ag ef tra oedd yn Rhodesia. Gwnaeth argraff arno. tt. 43-46 |
| Gyrrwr lori lefrith | |
| Y tri dyn yn y Cortina llwyd | |
| Y Gwyddel yn Nulyn | |
| | Cadeirydd Cymdeithas y Defaid Mynydd. Un o ffrindiau Richard Lloyd. Cymro cymwynasgar. Bu'n siarad â Gwyn yn y sêl. tt. 52-54 |
| | Ef daflodd bamffledi 'Ie' Gwyn a'i alw'n '*Welsh Nash*' yn y sêl. tt. 54-55 |

# Y CYMERIADAU

## A fedrwch chi lenwi'r bylchau?

| | |
|---|---|
| | Roedd yn Armagh gydag Owain, un o'r *SAS*.<br><br>Ymosododd ar 'O' Leary' yn y fynwent gydag Owain.<br>tt. 60-61<br><br>Mae yn ei gyfarfod wedyn yn y Falklands.<br><br>Mae'n Swyddog *Intelligence* newydd ar y cwch yno. Roedd yn anghyfforddus pan welodd Owain.<br>tt. 106-107<br><br>Daeth i Flaencwm ar ôl i Owain farw i ddychwelyd ei eiddo a chydymdeimlo â Gwyn.<br>t. 121 |
| | Gweithio i *Army Intelligence*. Ef ddywedodd fod Owain wedi lladd y dyn anghywir. Liam McLochlain laddwyd nid Dermott Anthony O'Leary, un o'r *Provos* (*IRA*).<br>tt. 61-62 |
| | Lladdwyd ef mewn camgymeriad gan Owain a Symonds.<br>tt. 61-62 |
| Merch yn ystod Hyfforddiant Owain | |
| | Bu Gwyn a'i chymdogion yn hel mynydd iddi – (sef hel y defaid o'r mynydd at y dolydd).<br>Gwraig Edward Hughes, Glanrafon.<br>t. 73 |

# Y CYMERIADAU

## A fedrwch chi lenwi'r bylchau?

| | |
|---|---|
| | Gŵr Elisabeth Hughes. Gwelodd Gwyn a Richard Lloyd yn 'ffustio' ei gi – er mawr sioc iddo. 'Ci ifanc, yn meddwl bod y byd yn faes chwarae iddo' – dyna'i reswm dros guro.<br><br>Geiriau symbolaidd llawn ystyr yw'r rhain.<br>t. 78 |
| Paul Longshaw | |
| | 'Porthor' arfog bygythiol Longshaw.<br>tt. 80-81; t. 84 |
| | Gweinidog Capel Llywarch. Mae Gwyn yn mynd i'r Gwasanaeth Diolchgarwch.<br>tt. 89-91 |
| | Hogan dlws bryd tywyll. Mae'n hel casgliad yn y capel gyda'i ffrind, Siân Dolwen. Aeth i Ysgol Llangollen nid i Ysgol Dre.<br>tt. 92-93<br><br>Gwraig Gwyn.<br>tt. 132-133; 138-139 |
| | Mae Rhian, Siân a Gwyn yn ei helpu i gario cynnyrch Diolchgarwch y capel i'w char er mwyn mynd â nhw i Cheshire Home ac i Ysbyty'r Waun.<br>t. 93 |
| Jeff Carrier<br>(angen 5 pwynt) | |

# Y CYMERIADAU

## A fedrwch chi lenwi'r bylchau?

| | |
|---|---|
| | Cadeirydd y Cyngor Cymuned.<br><br>Cadeirydd y Cyfarfod yn y Neuadd pan oedd Jeff Carrier yn cynnig troi'r chwarel yn sba.<br>tt. 109-116 |
| Swyddog Cynllunio'r Sir | tt. 109-116 |
| | Aelod o'r Blaid Lafur.<br><br>Mwstás bach / gwallt Brylcreem.<br><br>Siarad yn Saesneg yn y cyfarfod.<br><br>Cefnogi cynnig Jeff Carrier.<br><br>Gwyn yn ei wrthwynebu.<br>tt. 109-111 |
| | Byw yn y Cwm. Ffermwr.<br><br>Siarad yn y cyfarfod – gofyn a oedd gan rywun ffordd ymlaen o ran ategu incwm ffermwyr.<br>t. 111 |
| Julius Brandli | tt. 123-126; 131-132 |

# Y CYMERIADAU


## A fedrwch chi lenwi'r bylchau?

| | |
|---|---|
| | Peilotiaid yr hofrennydd *Mark 2* a aeth yn erbyn Kintyre. Roedd yr hofrennydd yn cario *VIPs* – pobl y Gwasanaethau Cudd / *Intelligence*. tt. 134-137 |
| Jackson | tt. 134-137 |

# Y CYMERIADAU

## TASG 3

Edrychwch ar yr enwau sydd ar y dudalen nesaf. Ysgrifennwch pa fannau y bu Gwyn ynddyn nhw (y cylch cyntaf) a pha fannau y bu Owain ynddyn nhw (yr ail gylch) a gosodwch y mannau y bu’r ddau ohonynt yn y canol.



# Y CYMERIADAU

- Fferm Blaencwm
- Ysgol Dre
- Ger y griafolen yn Nant y Ceirw
- Chware milwyr ym Mlaencwm
- Coleg y Brifysgol Bangor
- Swyddfa'r heddlu, Bangor
- Rhodesia
- Rhyfel y Malvinas
- Sêl ddefaid gydag Armon Morris, Cymdeithas y Defaid Mynydd
- Armagh, Gogledd Iwerddon
- Mynwent yng Ngogledd Iwerddon
- Angladd Enid Lloyd
- Blaencwm: Noson cyn angladd Richard Lloyd
- Barics Henffordd
- Bannau Brycheiniog
- Diwrnod Hel Mynydd yng Nglanrafon
- Llundain.
- Capel Llywarch
- Rhewlif Fortuna
- Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd bentref y Dyffryn
- Chwarel y Granet
- Banc Ernst Brandli, Bern

# Y CYMERIADAU

## Atebion

### TASG 3

| | |
|---|---|
| • Fferm Blaencwm | G+O |
| • Ysgol Dre | G+O |
| • Ger y griafolen yn Nant y Ceirw | G+O |
| • Chware milwyr ym Mlaencwm | G+O |
| • Coleg y Brifysgol Bangor | G |
| • Swyddfa'r heddlu, Bangor | G |
| • Rhodesia | O |
| • Rhyfel y Malvinas | O |
| • Sêl ddefaid gydag Armon Morris, Cymdeithas y Defaid | G |
| Mynydd | O |
| • Armagh, Gogledd Iwerddon | O |
| • Mynwent yng Ngogledd Iwerddon | G |
| • Angladd Enid Lloyd | G+O |
| • Blaencwm: Noson cyn angladd Richard Lloyd | O |
| • Barics Henffordd | O |
| • Bannau Brycheiniog | G |
| • Diwrnod Hel Mynydd yng Nglanrafon | O |
| • Llundain. | G |
| • Capel Llywarch | O |
| • Rhewlif Fortuna | G |
| • Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd bentref y Dyffryn | G |
| • Chwarel y Granet | O |
| • Banc Ernst Brandli, Bern | |

# Y CYMERIADAU

## Dod i adnabod y cymeriadau: Gwyn

**TASG 4**: Dwyn i gof

Nodwch beth ydych yn dod i wybod am Gwyn.

| Pennod 1 |
| --- |
| |

| Pennod 2 |
| --- |
| |

| Pennod 3 |
| --- |
| |

| Pennod 4 |
| --- |
| |

| Pennod 5 |
| --- |
| |

# Y CYMERIADAU

Pennod 6

Pennod 7

Pennod 8

Pennod 9

Pennod 10

Pennod 11

# Y CYMERIADAU

Pennod 12

Pennod 13

Pennod 14

Pennod 15

# Y CYMERIADAU

## Dod i adnabod y cymeriadau: Owain

**TASG 5**: Dwyn i gof

Nodwch beth ydych yn dod i wybod am Owain.

**Pennod 1**

**Pennod 2**

**Pennod 3**

**Pennod 4**

**Pennod 5**

# Y CYMERIADAU

Pennod 6

Pennod 7

Pennod 8

Pennod 9

Pennod 10

Pennod 11

# Y CYMERIADAU

Pennod 12

Pennod 13

Pennod 14

Pennod 15

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

**TASG**: Mae rhai dyfyniadau wedi eu rhoi i chi. Ychwanegwch atynt.

## Gwyn Lloyd

| Nodwedd | Esboniad / Cyfiawnhad | Dyfyniad |
| --- | --- | --- |
| **Gofalus / cariadus / gwarchodol**<br><br>**Meddwl y byd o'i frawd bach** | Gofalus o'i frawd ar ôl iddo syrthio o ben y goeden griafolen a tharo'i ben yn erbyn y graig. Mae'n ei gario yn ôl i Flaencwm. | 'Penliniodd yn ymyl ei frawd, a chyffwrdd ei foch â chefn ei fysedd.' (t. 15)<br><br>'Yn simsanu dan y pwysau, fe ddechreuodd, gam ar y tro, am y tŷ.' (t. 15) |
| | Noson angladd Richard Lloyd mae'r ddau frawd yn cweryla. Mae Gwyn yn gweld Owain fel 'Gwas i'r Drefn' ac yn ei holi a fyddai wedi dod i'r angladd pe na bai'n pysgota am wybodaeth. Eto, ar ôl cweryla mae'n mynd â mygaid o de poeth a phlatiad o frechdanau i'w frawd. | |
| | Enwi ei fab, Owain Gwyn Lloyd (Now), ar ei ôl ef ei hun a'i frawd. Hyn yn dangos bod y ddau'n 'un' – ac yn dangos ei gariad at ei frawd. Mae'n awyddus hefyd i addysgu ei fab am ei ewythr – mae am ddangos y griafolen iddo. | 'Roedd yn bryd i Owain Gwyn Lloyd gael mynd i'r mynydd.' (t. 139) |

| | | |
|---|---|---|
| **Gofalus o'i ewythr Richard Lloyd** | Sawl enghraifft ohonyn nhw'n sgwrsio – mae'n amlwg eu bod o'r un anian, e.e. ar ôl bod yn y capel. Gwyn yn gefn iddo ar y fferm wrth 'hel mynydd' pan mae iechyd ei ewythr yn dirywio. | (tt. 76-77) |
| **Tawel / tirion** | Yn Ysgol Dre roedd yn fachgen tawel a thirion ac roedd yn darged gan y bechgyn eraill. | 'Roedd ei dawelwch a'i diriondeb naturiol yn cael eu cyfrif yn wendid mewn sefydliad lle'r oedd cystadlu'n ddiwylliant.' (t. 18) |
| **Galluog** | Cyfeiriad at y ffaith ei fod yn fachgen galluog yn yr ysgol – mae hyn yn ei wneud yn darged hefyd. Llawer yn eiddigeddus o'i allu. Cael ei alw yn '*swot*' / '*teachers pet*' / '*goody-goody*'. (t. 22)<br><br>Aeth i astudio yng Ngholeg y Brifysgol, ym Mangor.<br><br>Yn dadlau ei achos yn glir a chroyw yn y cyfarfod yn Neuadd y Dyffryn pan oedd Jeff Carrier yn cyflwyno'i fwriadau i droi Chwarel y Granet yn barc carafanau / gwesty / sba. (tt. 113-115) | 'Roedd … eiddigedd o'i allu academaidd, ac o'r sylw a gâi yn sgil hynny, wedi ei wneud yn darged.' (t. 18)<br><br>Mae'n cloi fel hyn: '"... dydi'r cynllun 'ma... mond yn wedd newydd ar hen gêm. Ie, yr hen gêm honno o ecsbloetio Cymru a buddiannau'i phobl er budd pobl o, wel, mi wyddon ni lle."' (t. 115) |

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| **Dewr**<br><br>**Asgwrn cefn ganddo i sefyll ar ei ben ei hun yn erbyn pawb arall. Ddim yn mynd gyda'r llif** | Sawl enghraifft yn y nofel e.e.<br><br>Wrth wynebu Alistair Watts un o'r 'giang-feistri'. Yn yr ysgol roedd gan Alistair Watts ddigon o gefnogwyr – nid felly Gwyn.<br><br>Codi 'dau fys' ar Dai Lewis yn yr *assembly* yn yr ysgol ar ôl iddo ei alw yn '*ignorant Welsh insect*' o flaen pawb.<br><br>Yn yr ysgol mae'n dweud wrth Owain ei frawd... | 'Yno roedd Gwyn, ei wyneb yn waed ac yn welw, yn plannu ei ddwrn yn wyneb Alistair Watts, un o giang-feistri ei ddosbarth.' (t. 19)<br><br>'Roedd Gwyn fel petai wedi tyfu... Roedd yn rhywun arall...' (t. 27)<br><br>'"... a dydw i ddim yn mynd i fynd efo'u *flow* melltigedig, blydi crach Seisnig nhw... Twll 'u tine!"'<br><br>'"A dwi 'di deud... ma 'mrwydr i 'di hi."' (t. 22) |

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| **Dyfalbarhad ganddo / egwyddorol** | Yn cael ei sarhau a'i alw'n enwau yn yr ysgol. Nid yw'n ildio, mae'n dal ati.<br><br>Eddie Jones y Cynghorydd Sir yn ei sarhau'n gyhoeddus / o flaen pawb yn y cyfarfod.<br><br>Yn y sêl mae'n fodlon sefyll yn erbyn tenant Cyrn y Bwch, Selattyn pan ddywedodd wrtho, '"Cer i'r diawl y *Welsh Nash*."' Roedd Gwyn yn rhannu pamffledi o blaid Datganoli. Bu ond y dim iddi fynd yn ffeit.<br><br>Yn y cyfarfod yn Neuadd y Dyffryn pan oedd Jeff Carrier yn cyflwyno'i gynlluniau, roedd sawl un yn cytuno gyda Jeff Carrier a'r rheiny'n Gynghorwyr a Swyddogion y Cyngor Sir. Mae Gwyn yn ddigon dewr i sefyll yn eu herbyn.<br><br>Mae'n cael ei sarhau'n ofnadwy gan Eddie Jones y Cynghorydd Sir ar ôl gwneud. | '*Lloyd from the hills*' / '*ignorant Welsh insect*' / '*Welsh Wog*'<br><br>'"Fuo rhai ohonon ni'n paffio rhyfel yn erbyn *Germans* ac *Italians*. Biti na fase gan Gwyn Lloyd yr un cariad at ei wlad ag sydd gan ei frawd."'<br>(t. 116)<br><br>'"Mae 'na lot o'i ochor o yma a dim llawer o d'ochor di."' (geiriau Armon Morris wrth Gwyn).<br>(t. 56)<br><br>(tt. 112-115) |

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| **Egwyddorol** | Mae Cymru a Chymreictod yn bwysig iddo. Nid yw am i Gymru gael ei defnyddio gan eraill (e.e. cynlluniau Jeff Carrier – sydd yn ei farn ef yn cynnig swyddi dros dro / dim manteision i bobl leol / swyddi gwael yn talu isafswm cyflog).<br><br>Gweld nythod y gwenoliaid yn cael eu chwalu yn yr ysgol. Gweld hyn yn ddarlun o'r Cymry yn cael eu chwalu o'u nythod (gwlad). | (t. 113)<br><br>'"Mae o'n deud y cyfan, 'n tydi," meddai Gwyn.'<br>(t. 21) |
| **Diwylliedig / digwyddiadau ei ardal yn bwysig iddo** | Cymryd rhan yn y Plygain.<br><br>Mynd i'r Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Llywarch. | 'Roedden nhw'n dysgu carol hefyd, ar gyfer Plygain Llan ddydd Mercher...'<br>(t. 29)<br><br>(t. 88) |
| **Geirwir / gonest** | Pan mae'r heddlu yn dod i Flaencwm i'w holi am y ffeiliau gafodd eu dwyn o'r Coleg, dywedodd Gwyn ei fod wedi bod yn rhan o'r brotest ac iddo helpu eu symud nhw. | (t. 33) |
| **Ffermwr gweithgar** | Carthu / godro / tagio (yn ystod ei wyliau coleg)<br><br>Yn gymdogol – helpu ffermwyr eraill e.e. Edward Hughes.<br><br>Mynd i'r sêl. | (tt. 30-31)<br><br>(tt. 72-73)<br><br>(t. 50) |

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| **Bachgen cefn gwlad / hogyn ei filltir sgwâr / sylwgar - yn sylwi ar natur o'i gwmpas** | Sylwi ar y gwenoliaid yn cael eu hel o'r nythod yn yr ysgol. Yn dweud llawer am fywyd – y Cymry yn cael eu hel o'u milltir sgwâr / gwlad gan Brydeinwyr. | (tt. 20-21) |
| **Yn gwrthwynebu grym milwrol** | Yn sylwi ar gi defaid yn cael ei 'ffustio'. Ar ôl gweld y ci yn cael ei ffustio ar y mynydd mae'n sylweddoli fod grym milwrol yn ddiwerth. A bod dim lle iddo yn y byd. Roedd mor ddiwerth â'r ci ifanc anufudd. | (t. 78)<br><br>'Roedd grym milwrol mor ddiwerth â chi ifanc anufudd.' (t. 79) |
| **Triw / cadw cyfrinachau** | Nid yw'n dweud wrth neb – dim wrth y doctor, Richard nac wrth Enid Owen fod Owain wedi neidio o'r griafolen i'r graig pan oedden nhw'n chwarae milwyr yn blant.<br><br>Mae Owain yn ymwybodol fod Gwyn yn un triw, a dyna pam mae'n ysgrifennu'r llythyr at ei frawd yn egluro popeth sydd wedi digwydd iddo ac yn gofyn iddo bostio'r amlen frown i gartref Llysgennad yr Unol Daleithiau. Cyn postio y mae Gwyn yn darllen cynnwys yr amlen. | 'Doedd o (Gwyn) ddim wedi dweud wrth neb, ddim wrth y doctor nac wrth Enid na Richard Lloyd hyd yn oed, fod Owain wedi syrthio o'r griafolen i'r graig.' (t. 124)<br><br>(t. 132) |

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| **Ei fys ar bỳls gwleidyddiaeth ei gyfnod** | Mae'n cymryd rhan yn yr ymgyrch 'Ie' dros Ddatganoli. | (tt. 54-55) |
| | Mae'n ymwybodol fod Owain ei frawd yn pysgota am wybodaeth ganddo pan ddaw adref y noson cyn angladd Richard Lloyd. | (tt. 98-99) |
| | Mae'n gweld yn bell beth fyddai effaith cynlluniau Jeff Carrier gyda chwarel y Granet. | (tt. 113-115) |
| | Mae'n deall sut mae Cynghorwyr Sir fel Eddie Jones yn gweithio. | (tt. 114-116) |
| | Pan mae'n darllen y papur ar ddiwedd y nofel – am drychineb Kintyre – mae yma awgrym ei fod yn deall pam mae'r trychineb wedi digwydd. | (tt. 6-7) |

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

## John Owain Lloyd

| Nodwedd | Esboniad / Cyfiawnhad | Dyfyniad |
|---|---|---|
| **Plentyn ffit, anturus, eofn, hyderus a beiddgar** | Gwelir hyn pan mae'n chwarae milwyr gyda'i frawd ar dir Blaencwm. Mae'n frwd iawn wrth '*crawl*-io', 'neidio' ac 'atacio.'<br><br>Ef sy'n neidio o'r griafolen i'r graig.<br><br>Pêl-droediwr da yn yr ysgol | (t.12)<br><br>(t. 14)<br><br>(t. 17) |
| **Poblogaidd / arwr ei ddosbarth** | Poblogaidd ymysg plant eraill yn yr ysgol. Yr athro Bioleg yn ei herio i wneud yn well nag ef i egluro'r weithred rywiol. Mae Owain yn llwyddo i wneud hynny. | 'Roedd y bechgyn eraill yn edmygu ei hyder a'i feiddgarwch.' (t. 18) |
| **Milwr wrth reddf / hoff o chwarae milwyr yn blentyn** | Chwarae â rhuglen frwyn wnaeth Yncl Richard iddo – yn saliwtio.<br><br>Mae'n darllen *War Picture Library* a *Commando* yn blentyn. | 'Cododd Owain ei alsen yn uchel. Dyrnodd hi i'r awyr fel gwron yn taro salíwt ar ei ffordd i'r gad.' (t. 11)<br><br>(t. 39) |

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| **Uchelgeisiol yn ei arddegau (17 oed)** | Yn aelod o'r *Army Cadet Force* yn yr ysgol.<br><br>Eisiau bod yn filwr ac yn mwynhau bod yn filwr ac am wneud 'job iawn ohoni'. Mae'n dweud hyn wrth ei frawd.<br><br>Yn 19 mae'n dweud wrth ei frawd ei fod â'i fryd ar fod yn yr *SAS*. | (t. 17)<br><br>'"Dwi isio'i neud o."'<br>(t. 39)<br><br>'Fe ddangosai iddyn nhw ei fod yn un o'r goreuon.'<br>(t. 39)<br><br>'"Dwi'n mynd i fod yn un o'r rheina."' (Yn edrych ar lun patrol o'r *SAS*).<br>(tt. 39-40) |
| **Gwarchodol / triw / cydymdeimladol** | Mae'n driw i'w frawd pan mae Alistair Watts yn ei herio yn yr ysgol. Ef sy'n camu rhwng Watts a Gwyn ac mae'n gallu chwalu'r ffeit. Ef sy'n 'twtio' Gwyn ar ôl iddo gael y ffeit. | |
| **Deuoliaeth yn Owain / rhwyg rhwng dau frawd** | Er ei fod yn cydymdeimlo â'i frawd ar ôl y ffeit gydag Alistair Watts yn yr ysgol ac yn flin ei fod wedi'i alw yn '*Welsh Wog*' mae'n colli amynedd ag ef, ac am iddo ildio / rhoi mewn i'r criw sy'n ei fwlio a mynd gyda'r '*flow*'. | '"Pam na nei di jyst 'mollwng chydig. *Relax*-io. Mwynhau. Ti'n gw'bod. *Go with the flow*."' |
| **Owain yn dewis llwybr gwahanol i'w frawd** | Mae ef a Gwyn yn cael 'ffrae' yn yr ysgol; mae Gwyn yn dweud ei fod yn anhapus yn yr ysgol a bod ei ewythr yn gwybod am hyn. Ar ôl hyn mae Owain yn 'cerdded i ffwrdd at ei ffrindiau'. | (t. 22) |

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| **Dilyn ei gwys ei hun** | Y mae Gwyn yn cael ei guro ar ei gefn a'i goesau ac yn gleisiau drosto ar ôl iddo ateb Dai Lewis yn yr *assembly* OND nid yw Owain yn cael gwybod beth ddigwyddodd yn iawn. Hyn yn awgrymu eu bod yn dieithrio. | (t. 29) |
| **Cywilydd o'i frawd** | Fel myfyriwr ym Mangor, mae Gwyn yn protestio. Mae Owain yn grac gydag ef. Mae'n dweud ei fod wedi'i 'embarasio'. | '"Oes rhaid ti neud cymaint o'r peth Cymraeg 'ma? Pam na fedri di jyst byw'n naturiol fath â phawb arall?"' (t. 36) |
| **Deuoliaeth / yn cael ei dynnu rhwng ei fyd newydd a'i wreiddiau** | Er ei fod â chywilydd o'i frawd mawr yn protestio ym Mangor ac yn gwylltio gydag ef, e.e. Mae'n hel Landrover gwyrdd y *Cadets* o Flaencwm oherwydd ei fod yn synhwyro fod yr heddlu newydd fod ar y fferm. Er hynny, mae'n dweud wrth Padfield a oedd yn y *Cadets* gydag ef am gau ei geg pan mae'n galw Cymry fu'n protestio yn y Coleg yn '*Wasters*'. | (t. 37) |
| **Penderfynol / Dangos cryfder corfforol a meddyliol** | Yn mynd trwy hyfforddiant caled ac anodd yr *SAS*. Dim ond 3 o'r 50 a mwy gydag Owain oedd wedi pasio cwrs dethol yr *SAS*. | (t. 64-67) '... yn un o'r goreuon, yn un o'r *élite*.' (t. 69) |

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| **Ei gydwybod yn ei bigo yn hwyr yn y dydd**<br><br>**Syrthio ar ei fai**<br><br>**Gonest** | Ar ddiwedd y nofel yn ei lythyr at Gwyn, mae'n dweud i'r sgwrs gyda Joshua, *Bushman*, adael ei ôl arno. Gweld bod yna drefn yn y byd – pobl fawr yn erbyn pobl fach a bod hynny'n ddinistriol.<br><br>Mae'n sylweddoli fod Gwyn wedi deall hyn yn Ysgol Dre. Mae e'n deall pan mae'n rhy hwyr. | 'Byth ers i mi fod yn siarad efo *Bushman* yn Rhodesia roeddwn i'n gweld fod y drefn o bobl fawr a bobl fach yn un afiach, ddinistriol – yn dinistrio pobl, yn dinistrio cymdeithas, yn dinistrio'r byd yn y pen draw.'<br>(t. 129) |
| **Ufudd** | Yn gwrando ar gyfarwyddiadau e.e. wrth ymosod ar y Cortina yn Armagh / yn Rhodesia / yn y Falklands. | (t. 49) |
| **Balch o'i lwyddiant milwrol** | Ar y dechrau roedd yn falch ei fod yn aelod o'r *SAS*. Siom enfawr oedd ei fod wedi'i ddiarddel.<br><br>Mae'n falch ar y dechrau iddo dderbyn cynnig mewn llythyr i aros yn y Gatrawd. | 'Gorweddai ei ddiarddel fel dŵr carthffos yng ngwaelod ei fol.'<br>(t. 69)<br><br>(t. 71) |

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| **Sefyll dros gyfiawnder / dewrder gwahanol ar y diwedd** | Ar ôl i Owain gyfarfod gyda Longshaw yn Llundain y mae trobwynt yn digwydd. Mae'n sylweddoli ei fod wedi cael ei ddefnyddio a'i gam-ddefnyddio, a'i fod yn mynd i gael ei ddefnyddio ymhellach gan Longshaw a'i giang. Roedd yn gorfod gweithio fel *insurgent* sef gweithio yn erbyn y llywodraeth yr oedd e wedi bod yn gweithio iddi. Mae'n cael ei lwgrwobrwyo i wneud hyn. Ond, ar y slei mae Owain yn hel gwybodaeth am ei fosys newydd a'i hen fosys a rhoi popeth yn yr amlen frown. Ac os oedd Gwyn yn fodlon, roedd am iddo yntau bostio'r amlen. Gwyddai beth fyddai canlyniadau hynny. | (t. 129) |
| **Syrthio ar ei fai** | Mae'n dweud wrth Gwyn mai ef oedd yn iawn, ar hyd yr adeg.<br><br>Mae rôl y ddau ar ddiwedd y nofel yn newid. Ar y dechrau ymddengys mai Owain yw'r 'arweinydd' ond Gwyn yw'r un sydd wedi dangos nodweddion arweinydd, a hynny o'r dechrau un. | 'Ond ti oedd yn iawn Gwyn, o'r dechrau ac ar hyd y ffordd. A minnau'n blydi ffŵl.' (t. 130) |

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

## Richard Lloyd

| Nodwedd | Esboniad / Cyfiawnhad | Dyfyniad |
|---|---|---|
| **Caredig / cymwynasgar** | Ef a'i wraig (Enid) yn magu'r plant ar ôl marwolaeth eu rhieni. | (t. 10) |
| **Deall plant - dyna'r seicoleg sy'n perthyn iddo** | Er nad oedd yn hoff o weld Gwyn ac Owain yn chwarae milwyr nid yw'n eu rhwystro. Gwyddai y byddai hynny yn eu hysgogi i chwarae rhyfel. | 'Teimlodd Richard Owen ias oer yn llithro i fyny ei asgwrn cefn ac yn crychu blew ei war.' (Wrth weld Owain yn codi gwn i'r awyr a saliwtio.) (t. 11) |
| **Ddim yn rhy hoff o'r syniad o anfon y bechgyn i Ysgol Dre (cynhesu mwy at Ysgol Waun)** | Mae ei wraig yn gweld bod mynd i Ysgol Dre yn rhoi 'cyfle' i'r bechgyn. '"Hm,"' yw ymateb Richard Lloyd.<br><br>Mae awgrym iddo gytuno ar ôl i Owain gael y ddamwain. | '"Bydd o'n gyfle iddyn nhw."<br>"Hm."'<br>(t. 15) |
| **Hawdd ymddiried ynddo / clust i wrando ar eraill** | Gwyn wedi dweud wrtho ei fod yn anhapus yn Ysgol Dre... er ei fod wedi trio'i orau glas i'w blesio pan aeth yno ar y dechrau. | (t. 21) |
| **Cynhaliol / cydymdeimladol** | Yn cydymdeimlo ac yn gefn i Gwyn pan gaiff ei arestio. Mae'n gefn iddo ar y ffordd adref. | 'Rhyfeddai (G) at ba mor ofalus roedd (R.LL) ohono fo...' (t. 36) |
| **Yn ennyn parch** | Mae Owain yn flin gyda Gwyn ond y mae'n cau ei geg rhag cweryla gyda'i frawd am fod Richard Lloyd yn edrych arno dan ei aeliau. | (t. 36) |

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| **Sensitif** | Mae Richard Lloyd yn synhwyro fod Gwyn wedi cynhyrfu ac yn anniddig ar ôl iddo ddod adref o'r sêl. Bu bron iddi fynd yn sgarmes rhyngddo a thenant Cyrn y Bwch, ond mae'n ei gynghori'n ddoeth. | (tt. 57-58) |
| **Doethineb tawel cysurlon**<br><br>**Cymro / positif** | Mae'n rhoi cyngor doeth ac yn cysuro Gwyn wedi'r helynt yn y sêl. Mae'n gweld fod Gwyn mewn lle du. Mae'n dangos y mynyddoedd Cader Bronwen a Chader Berwyn iddo, ac yn dweud fel y mae'r mynyddoedd wedi bod yna erioed a faint o dywyllwch mae'r mynyddoedd wedi'i weld erioed. Awgrym cryf y bydd Gwyn yn siŵr o oresgyn perthynas. | '"'Den ni'r Cymry 'di bod yma ers cyn hanes. Den ni'n dallt y mynyddoedd. A ma'n nhw 'n dallt ni."'<br>(t. 59) |
| **Yn siarad mewn damhegion / heddychwr** | Enghraifft arall o siarad mewn damhegion yw pan mae Gwyn ac yntau yn gweld Edwart Hughes yn ffustio'r ci defaid ifanc.<br><br>Mae'n cyfeirio at y ci ifanc chwareus. Fel mae'n dweud hynny, mae awyren filwrol yn hedfan dros y Cwm. Efallai fod awgrym pellach yma ei fod yn heddychwr, ddim yn hoff o ryfel. Doedd e ddim yn gyfforddus pan oedd y bechgyn yn chwarae milwyr yn blant. | (tt. 78-79)<br><br><br><br><br>'Ci ifanc... yn meddwl bod y byd yn faes chwarae iddo.'<br>(t. 78) |

| | | |
|---|---|---|
| **Beirniadol o ddyn**<br><br>**Crefydd Richard Lloyd** | Mae Richard Lloyd yn adnabod y byd ac yn deall y byd wrth fod allan yn yr awyr agored. Dyna lle mae'n gallu addoli Duw, nid y tu mewn i furiau capel.<br><br>Gweld dyn yn greadur mawr / brolgar mewn capel. Oddi allan dyn bach ydyw mewn lle mawr.<br><br>Gweld dyn yn 'meddwl fod ganddo'r hawl i wneud be licith o efo'r byd sy tu allan... ac i anghofio nad ei fyd o ydy o.'<br><br>Mae'n hoffi Gwasanaeth Diolchgarwch am fod dyn yn dod â chynnyrch – bwyd, llysiau etc i'r capel ac yn diolch amdano. | (t. 87) |
| **Praff** | Roedd wedi gweld Gwyn yn siarad â'r merched yn y capel ac wedi gweld ei fod wedi ffansïo un ohonyn nhw. Ond nid yw'n ei holi gormod – dim ond gofyn, '"Ddysgest ti rwbeth heno?"' | (t. 94) |

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| **Doeth**<br><br>**Ddim yn busnesu** | Wrth ddarllen am Richard Lloyd fe welwn ei fod yn anghytuno â daliadau Owain. (Mae'n sôn bod dyn yn meddwl 'fod ganddo'r hawl i wneud be licith o efo'r byd'. Mae ei ymateb i'r ci defaid yn cael ei guro yr un peth. Mae fel petai yn gadael i Gwyn ac Owain ddarganfod a gweld pethau drostyn nhw eu hunain.<br><br>Nid yw'n busnesa chwaith pan mae Gwyn yn siarad â'r merched yn y capel. Mae wedi sylwi, ond nid yw'n dweud dim. | (t. 94) |
| Fe welwn fod Richard Lloyd a Gwyn o'r un anian yn rhannu'r un gwerthoedd. Mae'r ddau yn parchu'i gilydd a Gwyn yn dysgu llawer o fod yng nghwmni Richard Lloyd. Mae'r ddau yn ffermwyr sy'n caru eu milltir sgwâr ac yn Gymry naturiol. Noson cyn ei angladd, y mae arch Richard Lloyd yn y gegin ar ochr chwith y lle tân yn lle'r gadair freichiau. Y mae Owain, ar y llaw arall, yn rhyfeddu at hyn. '"Rargien! Fa'ma wyt ti 'di'i roi o."' Ateb Gwyn yw, '"Pan oedd o yn y tŷ, fa'ma fydde'i le o,"' ac nid oedd am iddo dreulio'i noson olaf yn rhywle arall. Mae Gwyn yn deall Richard Lloyd yn iawn. Llathen o'r un brethyn yw Gwyn. | | |

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

## Paul Longshaw

| Nodwedd | Esboniad / Cyfiawnhad | Dyfyniad |
|---|---|---|
| **Gwenieithus**<br><br>**Gwên deg a gwenwyn dani** | Pan mae Paul Longshaw yn cyfarch Owain am y tro cyntaf, mae'n gwneud hynny mewn llais uchel a gyda gwên. | '"*Trooper Lloyd*", meddai'n uchel gyda gwên.<br>"*How are you?*"'<br>(t. 81) |
| **Awdurdodol / dangos ei bŵer a grym**<br><br>**Bwlio** | Yn yr ystafell roedd carped trwchus glas golau /tân marmor / rỳg Bersiaidd / bwrdd coffi o fetal gloyw a gwydr du / dwy soffa Chesterfield felôr gwyn.<br><br>Acen wahanol ganddo wrth siarad.<br><br>Porthor ganddo 'Wilson'. Hwnnw'n siarad mewn llais llyfn ac yn cario gwn ac yn sefyll yn fygythiol.<br><br>Mae Paul Longshaw yn gorchymyn i Owain eistedd. | (t. 81)<br><br>'... presenoldeb Wilson a'r pistol trwm a gariai hwnnw dan ei gesail yn tyfu nes troi'n llethol. Ac anadl y 'porthor' – er gwaetha'r teirllath o ofod rhwng y soffa a'r man lle y safai hwnnw wrth y drws – yn anghynnes o boeth ar ei wegil.'<br>(t. 84)<br><br>'...roedd Longshaw'n gwybod mai y fo oedd y bòs.'<br>(t. 82) |

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

| | | |
|---|---|---|
| **Slei**<br><br>**Hyll o awgrymog** | Yn datgelu gwybodaeth yn araf a bwriadus a dweud bod sefyllfa Owain yn 'un ychydig yn drafferthus'. Roedd yn gwybod bod Owain mewn trafferth mawr. | |
| **Llwgrwobrwyo** | Mae'n rhoi cynnig i Owain na all ei wrthod – sef gweithio fel *insurgent* iddo ef a'i dîm yn erbyn y llywodraeth. Roedd angen iddo hefyd edrych i mewn i'r ymgyrch llosgi tai haf. O dderbyn y cynnig byddai'n cael 'swm bach teidi o bres' ac 'aros yn y Gatrawd'. | (t. 83) |
| **Bygythiol**<br><br>**Pwerus** | Sylweddolodd Owain nad oedd ganddo ddewis ond derbyn. Awgrymodd Paul Longshaw ei fod yn gwybod beth allai ddigwydd i rywun nad oedd yn cael ei gadw o'r golwg. | (t. 84) |
| Mae Paul Longshaw yn ymwybodol nad yw Owain yn hapus. Dywed '"*Why fight it? Why not just go with the flow?*"' Mae'r geiriau hyn yn debyg i beth ddywedodd Owain ei hun yn Ysgol Dre. Mae Owain yn derbyn y cynnig, ond yn y bôn mae'n mynd i wneud iawn am beth ddigwyddodd. Dyma lle mae Owain yn sylweddoli iddo gael ei ddefnyddio a dyma pryd mae trobwynt yn digwydd yn ei fywyd. | | |

# ADNABOD CYMERIADAU

## Tasgau hunan-asesu

Darllenwch y nodiadau sy'n dadansoddi'r prif gymeriadau.

Anodwch y nodiadau fel hyn.

| | |
|---|---|
| ✓ | Mae'r arwydd hwn yn nodi fy mod yn gwybod hyn yn barod.<br>'Roeddwn yn gwybod hyn.' |
| – | Mae'r arwydd hwn yn dangos fy mod wedi darllen rhywbeth newydd.<br>'Doeddwn i ddim yn gwybod hynny.' |
| ? | Mae'r arwydd hwn yn dangos fy mod wedi darllen rhywbeth sydd ddim yn gwneud synnwyr i mi.<br>'Dydw i ddim yn deall hyn.' |

# Owain

**TASG 1**: Rhowch wybodaeth yn y sgwariau isod.

**Gwybodaeth gyffredinol**

**Dadansoddi'r cymeriad**

**Beth yw barn Gwyn am Owain?**

## Tasgau hunan-asesu

**Gwyn**

**TASG 1**: Rhowch wybodaeth yn y sgwariau isod.

**Gwybodaeth gyffredinol**

**Dadansoddi'r cymeriad**

**Beth yw barn Owain am Gwyn?**


**TASG 2**: Defnyddiwch y diagram *lotus* i ateb cwestiynau am y cymeriadau.
Ysgrifennwch yn y blychau perthnasol.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1. Gwyn | | | 2. Owain | | | 3. Richard Lloyd | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | 8. Symonds | | | Y CYMERIADAU | | | 4. Dai Lewis y Prifathro | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | 7. Jeff Carrier | | | 6. Paul Longshaw | | | 5. Joshua | |
| | | | | | | | | |

**TASG 3**: Cofnodwch y prif ddigwyddiadau ym mywyd Gwyn ac Owain.


## Olwyn bywyd

# Gwyn



## Olwyn bywyd

# Owain



# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

**TASG 4: TASG 4: Beth gredwch chi yw barn a theimladau y cymeriadau tuag at ei gilydd? Nodwch hynny yn y cylchoedd isod.**

Byddwch yn barod i siarad a chyfiawnhau eich barn.

(Efallai y bydd rhai o'r geiriau hyn o gymorth i chi : gwarchodol/ amddiffynnol/ deallus/ edmygu/ dewr/ eofn/ bradwr/ penboeth/ hirben /gwyllt/ call/ ysgwyddo cyfrifoldeb/ yn fodlon sefyll dros gyfiawnder/ triw.)

1. Beth yw barn a theimladau Richard Owen tuag at Owain a Gwyn?



# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

2. Beth yw barn a theimladau Gwyn tuag at Owain?

# DADANSODDIAD O'R PRIF GYMERIADAU

3. Beth yw barn a theimladau Owain tuag at Gwyn?

## Y cerrig milltir pwysig ym mywydau Gwyn ac Owain

| Dyddiad | Gwyn | Gwyn ac Owain | Owain |
|---|---|---|---|
| | g. tua 1958 | Bu farw eu mam (ar enedigaeth Owain).<br><br>Gwyn ac Owain yn cael eu magu gan eu tad, Emrys, yn Nhŷ Newydd. Anti Enid ei chwaer-yng-nghyfraith yn mynd i Dŷ Newydd am gyfnod i helpu Emrys i fagu'r bechgyn.<br><br>Marw Emrys y tad drwy ddamwain. Disgynnodd o ben tas wair ar slabiau cerrig yr hen lawr dyrnu.<br><br>Gwyn ac Owain yn mynd i fyw i Flaencwm ar ôl marwolaeth eu tad at Richard (brawd Emrys) ac Enid. | g. tua 1960 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tua 1970 | | Dechrau'r nofel – mae Owain yn ddeg oed a Gwyn yn un ar ddeg. Mae'r ddau yn chwarae *commandos* / milwyr ar ddiwrnod y *Fête* ger Nant y Ceirw. Mae Owain yn neidio o ben y griafolen ar graig. Mae'n taro ei ben ar y graig ac yn anymwybodol. Gwyn sy'n ei gario adref i Flaencwm. | |
| | Gwyn yn dawelach na'i frawd. Bachgen galluog 'ar ben y *Form Order*' ac yn darged oherwydd hynny. | Gwyn ac Owain yn Ysgol Dre. | Owain – aelod poblogaidd o'r *Army Cadet Force* yn yr ysgol. Pêl-droediwr da.<br><br>Bachgen poblogaidd allblyg. |
| | Gwyn yn cael ffeit gyda Alistair Watts 'un o'r giang-feistri'. | Y ffeit rhwng Gwyn ac Alistair Watts.<br><br>Owain yn cefnogi Gwyn ac yn camu rhwng Watts a'i frawd.<br><br>Gwyn yn dangos y nythod gwenoliaid yn cael eu chwalu i Owain – gweld ei hun a Chymry fel cenedl yn debyg iddynt. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwyn yn dweud wrth Owain nad yw'n mwynhau yr ysgol. Gweld yr ysgol yn llawn 'blydi crach Seisnig'. | | Owain yn hapus gyda'i ffrindiau yn yr ysgol. |
| | Dunning, un o fêts Alistair Watts, yn crafu blaen ei esgid ar ffêr Gwyn yn yr *assembly*. Gwyn yn rhoi bloedd. Dai Lewis y 'Prif' newydd yn galw Gwyn yn '*ignorant Welsh insect*' o flaen pawb. Gwyn yn ymateb drwy godi dau fys ar Dai Lewis. Caiff ei guro am wneud hyn. Yn sgil y digwyddiadau hyn y daw cyfnod Owain a'r Prifathro yn Ysgol Dre i ben. | Gwasanaeth / *assembly* cyntaf Dai Lewis fel Prifathro yn Ysgol Dre. | Mae Owain wedi sylwi ar y cleisiau ar gorff Gwyn ar ôl iddo gael ei gosbi am ymateb fel ag y gwnaeth yn yr *assembly*, ond ni chafodd fyth wybod yn union beth a ddigwyddodd. (Awgrym eu bod wedi dieithrio). |
| Tua 1978-79 | Gwyn yn 20 oed.<br><br>Gwyn yn cymryd rhan yn Plygain Llan – mae yn y Coleg ym Mangor a gartref ar ei wyliau Nadolig. | | Owain yn 18 oed.<br><br>Owain i ffwrdd yng Ngwersyll y *Cadets*. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwyn yn fyfyriwr yn y Coleg ym Mangor. Mae yn un o'r criw fu'n protestio yno. Caiff ei arestio a'i holi yn Swyddfa'r Heddlu Bangor. Bu'r protestwyr yn dwyn ffeiliau gwreiddiol y Coleg a daeth yr heddlu i archwilio Blaencwm am y ffeiliau. | | Owain yn hyfforddi i fod yn yr *SAS*.<br><br>Aseiniad cyntaf Owain gyda'r SAS oedd yn Rhodesia – ymosod ar y *ZANLA*, byddin Robert Mugabe.<br><br>Owain yn cyfarfod Joshua yn Rhodesia, un o frodorion y *Bush*. |
| **1979** | Gwyn yn Nulyn mewn gêm rygbi – Pencampwriaeth y Pum Gwlad. Cyfarfod y Gwyddel yno – ef sy'n dangos gwn iddo.<br><br>Gwyn yn cefnogi'r ymgyrch Datganoli. Cael ei sarhau gan denant Cyrn y Bwch, Selattyn, un o ffermydd stad Brogyntyn am fod yn rhan o'r ymgyrch. Mae'r ddau yn mynd benben â'i gilydd mewn sêl ddefaid. | | Owain yn Armagh – Gogledd Iwerddon, gyda Symonds; ymosod ar y Cortina gyda thri dyn o'r IRA ynddo.<br><br>Owain gyda Symonds yng Ngogledd Iwerddon ac yn lladd 'O' Leary' mewn 'camgymeriad' yn y fynwent. Caiff ei hel o'r *SAS* am hyn. (Deallir mai cynllun bwriadol yw hyn.) |
| | Y mae Gwyn yn bresennol yn angladd Enid Lloyd. | Enid Lloyd yn marw. | Nid yw Owain yn mynd i'r angladd. Roedd yn Rhodesia. (Doedd ei deulu ddim yn gwybod lle roedd e, dim ond ei fod dramor) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Owain *'Returned to Unit'* ar ôl beth ddigwyddodd gydag O'Leary. Ym marics Henffordd mae'n derbyn llythyr yn ei wahodd i Lundain.<br><br>Yn Llundain mae'n cyfarfod Paul Longshaw ac mae'n cael cynnig na all ei wrthod i weithio fel *insurgent*. Mae'n cael ei roi mewn cornel. Mae'n gwybod petai'n gwrthod y byddai'n cael ei ladd. |
| | Gwyn yn 'hel mynydd' gyda Richard Lloyd. Helpu Edwart Hughes, Glanrafon y mae'r ddau. Mae Gwyn yn hel meddyliau ac yn cofio am Owain Gwynedd, y tywysog o Gymru yn ymladd Harri II o Loegr yn yr un ardal. Gwêl debygrwydd rhwng hyn a'i fywyd ei hun.<br><br>Mae Richard Lloyd a Gwyn yn gweld Edwart Hughes yn curo ci ifanc. Dywed Richard Lloyd fod y ci 'yn meddwl bod y byd yn faes chwarae iddo'. | | Tra bo Gwyn yn ffermio gyda Richard Lloyd, mae Owain wedi bod yn ymarfer gyda'r gatrawd ar hyd y Cwm. Wrth ymarfer y mae'n gallu gweld Blaencwm oddi tano. Dychmyga Richard Lloyd a Gwyn ar yr aelwyd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Tua 1982** | Gwyn yn ymwybodol o ymgyrch losgi Meibion Glyndŵr. Dyna sy’n digwydd ar y pryd yng Nghymru. | Noson cyn angladd Richard Lloyd, Owain a Gwyn ym Mlaencwm. | Owain yn holi Gwyn, noson cyn yr angladd, am yr ymgyrch losgi. Gwyn yn ei weld fel ‘Gwas i’r Drefn’ a phlismon; maen nhw’n cweryla. Gwyn yn amau a fuasai Owain wedi dod i’r angladd oni bai ei fod eisiau ei holi am yr ymgyrch losgi. Eto Gwyn yn maddau ac yn torri’r garw rhwng y ddau drwy fynd â brechdanau i Owain yn ei lofft. |
| | Gwyn mewn Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Llywarch. Cymysgu â'r gymuned leol. Cyfarfod â Rhian Fedw, ei ddarpar wraig yma. Richard Lloyd yn egluro pam mae’r Gwasanaeth Diolchgarwch yn bwysig iddo – yn dangos mai ffordd Gymreig o fyw a ffordd natur sy’n bwysig iddo. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1982** | | | Owain yn cael ei anfon i ymchwilio i sefyllfa Ynysoedd Falkland. Mae'n ceisio glanio ar Rewlif Fortuna. Owain yn meddwl ac yna'n deall beth oedd y bwriad i anfon ef a thîm o ddynion i ganol yr Arctig yn Ne Georgia er mwyn teithio 10km i wneud rhywbeth roedd yn bosib ei wneud yn well o lefydd agosach. Symonds oedd y Swyddog *Intelligence* ar y cwch. Mae'n amau mai ef yw'r drwg yn y caws. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1982** | Cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Dyffryn. Gwyn yn gwrthwynebu cynnig Jeff Carrier, o Wolverhampton i droi hen chwarel y Granet yn faes carafanau / sba / gwesty. Mae'n siarad yn erbyn y cynnig ac yn cyflwyno dadleuon cryf. | | Owain ar hofrennydd yn Ne Georgia. 'Nam' ar injan yr hofrennydd ac mae'n plymio i'r môr. Owain yn marw. Awgrymir ei fod wedi'i ladd yn fwriadol. |
| **1982** | Telegram yn hysbysu Gwyn o farwolaeth Owain. Captain Symonds yn dod i Flaencwm i ddychwelyd 'manion eiddo' Owain. Mae Symonds yn gweithio i'r Gwasanaethau Cudd sy'n gyfrifol am ladd Owain. | | |
| **1992** | Gwyn yn derbyn cerdyn post yn llawysgrifen Owain i fynd i Fanc Ernst Brändli & Co AG yn Bern.<br><br>Gwyn yn cyfarfod Julius Brandli. | | Llythyr Owain at Gwyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Caiff ei wirio a'i holi'n ofalus – gofyn cwestiynau na all neb ond Gwyn eu hateb, e.e. o ba goeden y neidiodd Owain pan frifodd ei hun wrth chwarae milwyr ar ddiwrnod y *Fête*.<br><br>Gwyn yn derbyn bocs metel – blwch-cadw'n-ddiogel.<br><br>Dwy amlen yn y blwch – un i Gwyn ac un amlen frown – a Krugerrands aur.<br><br>Yn yr amlen wedi'i chyfeirio ato ef roedd llythyr yn egluro sut a pham y cafodd ei daflu o'r *SAS* a'i fod yn *insurgent*.<br><br>Owain yn egluro iddo gael ei ddefnyddio ac felly aeth ati i hel gwybodaeth am weithgareddau ei fosys newydd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Roedd y wybodaeth yn yr amlen frown. Mae'n rhoi'r dewis i Gwyn i'w phostio neu beidio.<br><br>Mae Gwyn yn darllen cynnwys yr amlen frown. Mae yna gofnod o ddigwyddiadau / ffotograffau / dogfennau cyfrinachol a rhestr enwau. Mae'n cael hanes y 'tîm' yng Ngogledd Iwerddon a'u rhan yn y trais.<br><br>Roedd tîm Owain hefyd wedi bod yn gweithio yng Nghymru (llosgi tai haf). | | |
| | Gwyn yn sylweddoli fod Owain wedi cael ei gam-ddefnyddio a'i ladd am fradychu eu prosiect Meibion Glyndŵr.<br><br>Gwyn yn penderfynu postio'r amlen frown i Lysgennad yn UDA. | Awyren *Mark* 2 llawn aelodau Gwasanaethau Cudd / *Intelligence* yn hedfan o Aldergrove, Iwerddon yn Kintyre. Aeth yr awyren oddi ar ei thaith a tharo mynydd. Roedd yna dechnegydd newydd fod yn edrych ar yr awyren – awgrym felly mai damwain fwriadol oedd hon. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Tua 1996** | Gwyn yn darllen hanes y 'ddamwain' awyren.<br><br>Mae'n amlwg yn deall beth sydd wedi digwydd. Mae'n darllen enwau'r bobl a laddwyd ac yn deall mai yr un enwau ydyn nhw â'r rhestr enwau oedd yn yr amlen frown a bostiodd. (Sylwer bod y wybodaeth yma yn yr 'Agoriad' ar dudalen 6. Gwyn yw'r 'dyn cefnsyth yn ei dridegau hwyr'. | | |
| | Wedi darllen mae'n mynd â'i fab Owain Gwyn Lloyd (sydd wedi'i enwi ar ôl ei frawd) i weld y griafolen y disgynnodd ei frawd oddi arni. Hyn yn weithred bwysig i ddangos fod bywyd yn mynd yn ei flaen a bod yna barhad, a'i fod am i'w fab gofio am ei ewythr. | | |

# ADEILADWAITH

## Saernïaeth

Y mae *Dim* wedi'i saernïo'n drefnus. Er bod nifer o ddigwyddiadau dramatig llawn tensiwn a gwrthdaro yn y nofel, mae yna hefyd olygfeydd tawel a thlws sy'n tyneru ac yn gwastatáu pryderon ac ofnau. Mae Richard Lloyd yn ganolog yn y golygfeydd tyner hyn, ac ef sy'n llwyddo i dawelu'r dyfroedd a gosod problemau'r byd yng nghyd-destun eang y bydysawd. Ef sy'n dangos mor ddiymadferth yw dyn ochr yn ochr â natur, ac fel y dywed yr awdur 'waeth beth wnaiff dyn all o ddim gorchfygu natur.'

Dilyn hanes dau frawd a wneir. Mae'r tair pennod gyntaf yn sôn am eu plentyndod a'u llencyndod, ac fe welir hyd yn oed yn y dyddiau cynnar hyn eu bod yn wahanol o ran natur. Mae'r nofel yn dilyn bywydau'r brodyr, ac yn ystod eu bywydau maen nhw'n gorfod gwneud penderfyniadau anodd. Nid oes atebion hawdd i bopeth ac mae hyn yn rhan o apêl y nofel. Yna yn y penodau olaf y mae amgylchiadau a digwyddiadau yn dod â'r ddau yn ôl at ei gilydd unwaith eto.

## Iaith

Mae iaith y nofel yn iaith gyhyrog ac idiomatig.

1. Mae blas tafodiaith y Gogledd arni, a thafodiaith yr awdur a fagwyd ym mhen uchaf Dyffryn Ceiriog. Mae hyn i'w weld yn y ddeialog, er enghraifft: 'hwde' (t. 8), 'gynne paffio' (t. 9), 'tacle' (t. 10), 'pidlonni' (t. 22), 'rhoi clemiau ar flaen sodlau' (t. 26), 'rhuglen frwyn' (t. 13), 'lori gatel' (t. 50) 'towlu tail' (t. 30)

2. Y mae blas gwledig ar yr iaith a nifer o dermau o fyd amaeth yn cael eu defnyddio megis: 'llawr dyrnu' (t. 10), 'cowcsio wyn' (t. 50), 'certws' (t. 9), 'côr' (t. 36), 'buarth' (t. 6) a 'corlan' (t. 50), 'ysgubor' (t. 6), 'carthu a bwydo' (t. 29)

# ADEILADWAITH

## Awyrgylch

Dyma nofel ac apêl weledol gref iddi; byddai'n gwneud ffilm dda. Mae yma symud o un olygfa i'r llall a'r golygfeydd yng Ngogledd Iwerddon, Ynysoedd Falkland a Rhodesia (Zimbabwe heddiw) yn cynnig eu hunain fel golygfeydd llawn gwrthdaro a thrais. Yn yr un modd mae sawl golygfa yng Nghymru yn llawn tensiwn a thyndra. Mae'r darllenydd yn cael ei arwain fesul tipyn i mewn i'r digwyddiadau ac yn sylweddoli ei fod yn cael ei dynnu'n raddol i fyd tywyll a sinistr. Efallai, wedi'r darlleniad cyntaf, nad yw popeth yn gwbl glir ond daw'r cwbl yn glir wedi darllen llythyr Owain ar ddiwedd y nofel. Mae'r llythyr hwn yn datgelu popeth ac yn allweddol er mwyn deall *Dim*. Yna gall y darllenydd droi yn ôl at yr Agoriad (t. 6-7), ei ddarllen eto a deall ei arwyddocâd. Dyna reswm arall pam mae'r nofel yn ffilmig; dyma dechneg a welir mewn rhai ffilmiau – cyflwyno golygfa agoriadol cyn i'r ffilm neu'r stori ei hun ddechrau yn iawn. Yn aml nid yw'r olygfa agoriadol hon yn gwneud synnwyr tan i'r gwyliwr weld y ffilm i gyd.

## Delweddau

**Mynydd**

Mae'r mynyddoedd yn symbol o rym, nerth a chadernid yn y nofel. '"Faint o ddydd a nos wyt ti'n meddwl mae'r rheina wedi'u gweld?"' (t. 58). Cwestiwn gan Richard Lloyd i Gwyn yw hwn. Ceisio cysuro Gwyn y mae wedi iddo gael ei wawdio a'i herio i gwffio mewn sêl ddefaid a hynny am iddo ddangos ei fod o blaid y bleidlais Ddatganoli. Mae am i Gwyn uniaethu â'r mynyddoedd. Mae'r mynyddoedd yn dal i sefyll, ac mae am i Gwyn ddal ati hefyd. Ar y dechrau mae Gwyn yn ddryslyd ac nid yw'n deall beth yn union sydd gan ei ewythr dan sylw, ond fe ddaw i ddeall. Caiff hyn ei gyfleu mewn brawddeg fer llawn ystyr: 'Yna, gwelodd.' Mae'r ferf 'gwelodd' yn dangos yn glir bod Gwyn wedi gweld, wedi deall. Yna, daw'r sylweddoliad yn y frawddeg 'Roedd mor amlwg.'

Yna aiff ei ewythr ymlaen i esbonio ac ymestyn y ddelwedd,'"'Den ni'r Cymry 'di bod yma ers cyn hanes. 'Den ni'n dallt y mynyddoedd. A ma'n nhw'n 'n dallt ni."' Drwy'r ddelwedd hon llwyddodd i dawelu Gwyn a chodi'r pwysau fu 'ar ei war drwy'r dydd'. Wrth fynd adref i gael swper mae fel petai wedi cael tawelwch meddwl a nerth i ddal ati oherwydd ei fod yn sylweddoli fod y 'bwlch a'r mynyddoedd yno

o hyd, yn dawel ac yn gadarn. Yn gwrthsefyll dyfroedd afluniaidd y nos.'

**Awyren ryfel yn y cwm** (t. 79)

Mewn golygfa arall mae Richard Lloyd a Gwyn yn gweld awyren ryfel yn hedfan drwy'r cwm. Mae ei sŵn yn tarfu ar Gwyn ac mae'n dilyn cwrs yr awyren, ond sylwa nad yw ei 'thwrw dychrynllyd' wedi amharu dim ar ei ewythr. Wrth ei weld mor ddidaro sylweddola Gwyn fod mwy i fywyd nag awyrennau rhyfel; nad oes lle yng nghanol natur i rym milwrol a sylweddola pa mor ddiwerth ydyw'r grym hwnnw yn ehangder y mynyddoedd.

**Y ddamwain awyren** (tt. 136-137)

Mae'r 'ddamwain' awyren sy'n digwydd ar ddiwedd y nofel yn digwydd yng nghanol mynyddoedd yr Alban. Mae'r awyren *Mark 2* yn malu'n chwilfriw a'r holl griw sy'n cynnwys aelodau o'r Gwasanaethau Cudd ac *Intelligence* yn cael eu lladd. Nid ydynt yn ddim yn ehangder y mynyddoedd. Caiff natur y llaw uchaf arnynt. Mae'r hanes yn cloi gyda brawddeg sy'n gyforiog o ystyr: 'A dawnsio niwl y mynydd.'

**Y ci defaid ifanc** (t. 79)

Gwêl Richard Lloyd a Gwyn gi ifanc yn cael ei ffustio gan Edwart Hughes. '"Ci ifanc yn meddwl bod y byd yn faes chwarae iddo,"' yw sylw Richard Lloyd. Yna daw'r awyren ryfel ar draws y cwm. A yw'r ci anufudd yn ddelwedd o beilotiaid milwrol yn trin y byd fel maes chwarae? Caiff y ci ei gosbi: A yw Richard Lloyd yn awgrymu mai dyna fydd yn digwydd i'r rhai sy'n chwarae rhyfel ac yn cam-drin y byd a'i bobl?

## Dywediad arwyddocaol/ ailadrodd

Mae arwyddocâd i'r dywediad '*Go with the flow*' (t. 21) ac mae'n cael ei ailadrodd mewn cyd-destunau gwahanol yn y nofel. Dyma'r cyngor y mae Owain yn ei roi i Gwyn yn yr ysgol, '"*Relax*-io, Mwynhau. Ti'n gw'bod? *Go with the flow*"' (t .21). Mae am iddo fod fel pawb arall yn yr ysgol. Mae Gwyn yn gwybod yn iawn na all wneud hyn;

mae ganddo ei ddaliadau ei hun ac ni all eu diystyru a’u rhoi o’r neilltu. Dyma’r ateb mae’n ei roi:

‘“Paid â meddwl ’mod i’n mynd i bidlonni efo’r tacle yna jyst er mwyn mynd efo’r *flow*. Mae ’na fwy nag un *flow* yn y byd ’ma – a dydw i ddim yn mynd i fynd efo’u *flow* melltigedig, blydi crach Seisnig nhw. Twll ’u tine!”’

Person arall sydd yn defnyddio’r dywediad yw Longshaw, ac mae’n eironig mai Owain y tro hwn sydd yn cael ei gymell a’i herio i fynd gyda'r llif. ‘“*Why fight it? Why not just go with the flow*?”’ yw geiriau’r Sais (t. 84). Mae’r geiriau yn canu cloch ym meddwl Owain – cofia iddo ef ddweud yr union eiriau wrth ei frawd yn yr ysgol. Yma, mae’n sylweddoli mai ei frawd oedd yn iawn ac yma y penderfyna ei fod am wneud iawn am yr hyn mae wedi’i wneud. Mae’n ymddangos mor ffwrdd-â-hi wrth ddweud, ‘“*Sounds good to me*,”’ wrth Longshaw. Ond mae ganddo ei gynllun a’i agenda ei hun i’w dilyn hefyd sy’n dangos ei fod am nofio yn groes i’r llif ac i’r ‘*flow*’.

# ARDDULL – DARNAU PENODOL

tt. 13–14

GEIRIAU SAESNEG

BRAWDDEG HIR AML-GYMALOG

Sylwodd Owain arno'n dal i orwedd yno a synhwyrodd bod pellter mwy na lled nant rhyngddyn nhw. Gadawodd y gorchfygu ac aeth i eistedd yn ymyl ei frawd.

"Beth am i ni fynd yn *commandos* a dringo ar draws y nant er mwyn chwythu i fyny'r *bomb factory* 'na'n fan'cw?" Disgrifiodd y llwybr â'i fys: i fyny'r graig at y griafolen; ar draws y nant ar hyd ei changen isaf hi; neidio o'r gangen i'r graig gron 'na'n fan'cw; ac yna draw i'r wal gerrig, wal y 'ffatri'.

"Sbia, mi iwsiwn ni rhein fel *explosives*," a thynnodd ddwy getrisen wag o'i boced. "Cyma di honna ac mi gyma i'r llall."

Cymerodd Gwyn ei getrisen. A chododd y ddau fachgen ar eu traed a loncian i fyny i'r creigiau at y griafolen. Munud neu ddau'n ddiweddarach roedd Owain yn symud ar hyd y gangen fawr isaf ac uwchben y nant.

"O na!" gwaeddodd. "Ma'n nhw 'di 'ngweld i. Ma'n nhw'n dechre saethu! Rhaid i mi neidio!"

Gwyliodd Gwyn wrth i'w frawd droi ar y gangen a gwthio ei hun oddi arni. Hedodd i lawr at y graig, ei freichiau ar led, ei glos byr yn clepian o gwmpas ei goesau, a'i siwmper wau werdd yn llenwi fel hwyl am ei gorff a'i freichiau.

Cyrhaeddodd ei esgidiau trymion y graig.

A llithro.

Saethodd ei goesau ar draws y graig a thaflwyd o i lawr yn galed ar ei gefn. Trawodd ei ben yn erbyn y graig a diflannodd y braw, a oedd wedi llenwi ei wyneb eiliad ynghynt, fel dŵr i dywod wrth i'w lygaid droi am yn ôl i'w ben a dwyn eu cannwyll a'u lliw efo nhw.

Gorweddai heb symud.

CYMHARIAETH / CYFFELYBIAETH

BRAWDDEG FER

DEIALOG

*Rhowch y llygoden dros y blwch nodwedd a bydd yr enghraifft yn cael ei hamlygu yn y testun.

## Brawddeg hir amlgymalog

**'Disgrifiodd y llwybr â'i fys: i fyny'r graig at y griafolen; ar draws y nant ar hyd ei changen isaf hi; neidio o'r gangen i'r graig gron 'na'n fan'cw; ac yna draw i'r wal gerrig, wal y 'ffatri'.'**

Y mae'r ddau frawd Owain a Gwyn yn chwarae *commandos* yn blant. Geiriau Owain yw'r geiriau hyn sy'n arwyddocaol gan iddo ddewis gyrfa fel milwr yn yr *SAS*. Mae'n amlwg ei fod yn byw i'r 'gêm' hon ac wedi ymgolli'n llwyr yn yr hyn mae yn ei wneud. Yn llygad ei feddwl gwêl y '*bomb factory*' ac mae'r wal gerrig wedi ei throi yn 'ffatri' ganddo. Mae ganddo lygaid llawn antur a llygaid milwr yn fachgen ifanc, ac mae pob symudiad ar y llwybr mae'n bwriadu ei ddilyn wedi'i gynllunio'n ofalus. Mae pob cymal yn talu am ei le ac yn cyfleu symudiadau gofalus a chyffro milwr ar gyrch arbennig.

## Brawddeg fer

**'Gorweddai heb symud.'**

Mae'r darllenydd newydd gael ei dynnu i mewn i'r olygfa hon gan ddilyn y ddau 'filwr' gam wrth gam. Yn sydyn caiff y darlun ei chwalu gan un frawddeg fer:

'Gorweddai heb symud.' Un frawddeg, tri gair ac mae'r holl symud a fu yn cyferbynnu â llonyddwch y frawddeg hon.

## Cymhariaeth/ Cyffelybiaeth

**'a'i siwmper wau werdd yn llenwi fel hwyl am ei gorff a'i freichiau.'**

Mae'r gymhariaeth hon yn cyfleu natur anturus a beiddgar Owain. Mae'n neidio o gangen y griafolen uwchben y nant am ei fod yn dychmygu'r gelyn yn dechrau saethu. Siwmper wau werdd sydd ganddo

(sydd yn ein hatgoffa wrth gwrs o siwmper milwr) ac mae’r gwynt wedi’i llenwi fel hwyl wrth iddo neidio. Darlun real a brawychus sydd yma – nid naid lipa flêr mo hon ond naid rhywun sydd wedi ymgolli yn y gêm mae’n ei chwarae. Mae arwyddocâd pellach i’r disgrifiad hwn gan ei fod yn adlais o'r ffordd y lladdwyd Owain mewn damwain fwriadol ar ddiwedd y nofel wrth i’r hofrennydd yr oedd yn teithio arni blymio i’r môr.

## Deialog

**“O na!” gwaeddodd. “Ma’n nhw ’di ’ngweld i. Ma’n nhw’n dechre saethu! Rhaid i mi neidio!”**

Geiriau Owain a geir yn y darn hwn drwyddo draw. Mae llawer o’r hyn y mae’n ei ddweud yn orchmynion i Gwyn, ond tawedog yw Gwyn. Yn y cefndir yn ufuddhau y mae ef, ond y mae ei frawd wedi ymgolli yn llwyr yn yr hyn mae’n ei wneud. Wedi’r cyffro cychwynnol o gynllunio ac yna symud ar hyd cangen y griafolen uwchben y nant dychmyga fod y gelyn wedi’i weld, ac mae’n gweiddi ei fraw mewn pedair brawddeg ddramatig. Mae’n siarad ag ef ei hun ac yn gweiddi ar ei frawd yr un pryd. Dyma eto gyfleu’r darlun o fachgen yn llwyr ymrói i’r hyn mae’n ei wneud — mae wedi anghofio mai dim ond chwarae y maen nhw.

## Geiriau Saesneg

***commandos***
***bomb factory***
***explosives***

Y mae’r geiriau Saesneg sydd yn y darn hwn yn eiriau sy’n perthyn i fyd milwr a rhyfel. Owain sydd yn eu defnyddio ac maen nhw’n eiriau sy’n rhan o fyd chwarae plant. Ond fe wyddom hefyd fod Owain yn darllen llyfrau swllt *Commando* a’r *War Picture Library* a *Purnell’s History of the Second World War*. Felly mae’n gyfarwydd â’r math yma o eirfa. Mae’n arwyddocäol mai perthyn i fyd Prydeinig militaraidd y maen nhw ac Owain nid Gwyn sy’n eu defnyddio. Mae’r bechgyn yn siarad Cymraeg digon

cywir ac fe allai Owain fod wedi dweud 'Ffatri fomiau' a 'ffrwydron', ond y geiriau Saesneg ddefnyddiwyd ganddo am eu bod efallai yn fwy realistig ac yn ffitio'n fwy cyffyrddus i'r byd militariadd Seisnig. Mae'r elfen Seisnig filitaraidd yn amlwg yn y nofel ac yn cyferbynnu â natur fwy heddychlon, ddi-drais, agos-at-natur y byd Cymreig.

# ARDDULL – DARNAU PENODOL

tt. 18-19

CYMHARIAETH / CYFFELYBIAETH

TROSIAD

Wrth agosáu at y cabanau fe glywodd Owain sŵn; sŵn yr oedd ynddo gynnwrf miniog bechgyn. Roedd yn dod o ben pellaf caban dosbarth Gwyn. Cododd Owain ei draed a dechrau rhedeg.

Wrth dalcen y caban roedd yna dorf, ac roedd yn wrjio ffeit. Llamodd Owain yn ei flaen a gwthio ei ffordd drwy'r cylch *blazers* a'r cyffro unochrog i gyrraedd eu canol. Yno roedd Gwyn, ei wyneb yn waed ac yn welw, yn plannu ei ddwrn yn wyneb Alistair Watts, un o giang-feistri ei ddosbarth. Roedd yr olwg ar wyneb Gwyn yn un roedd Owain yn ei nabod, ac yn ei ofni: yr olwg honno a ddôi i'w wyneb pan fyddai'n tynnu torogen o groen dafad ac yn ei gwasgu'n slwts o waed a chroen rhwng ewinedd ei ddau fawd. Trawodd glec ergyd ei ddwrn ar draws y cylch. A baglodd Watts yn ei ôl a disgyn ar ei din ar lawr â llef collwr a llif o waed yn tasgu o'i geg. Dechreuodd grio. Camodd un o fêts Watts allan o'r cylch bechgyn y tu ôl i Gwyn a chodi ei ddwrn i'w daro yng nghefn ei ben. Camodd Owain o'i flaen, rhyngddo a Gwyn, ac edrych yn dawel ddi-ofn i'r llygaid glas cynhyrfus. Ciliodd y mêt yn ei ôl, i ddiogelwch y dorf.

Roedd sŵn y cylch bechgyn wedi peidio ond doedd y cynnwrf ddim wedi anweddu'n llwyr. Aeth Owain draw at Gwyn. Rhoddodd ei law ar fraich ei frawd a'i gwasgu'n araf ond yn bendant ar i lawr. "'Na ddigon," meddai. "Rwyt ti 'di'i guro fo 'ŵan." Edrychodd y ddau ar y dorf o'u cwmpas a darllen y wynebau yno: y rhai siomedig fel cŵn wedi eu cosbi; y rhai a oedd yn dal i wenu fel giatiau yn hwyl y cynnwrf; y rhai a oedd yn oeraidd ddig o gasineb. Dechreuodd Owain gau ei ddyrnau.

CYFLYTHRENNU

AILADRODD

*Rhowch y llygoden dros y blwch nodwedd a bydd yr enghraifft yn cael ei hamlygu yn y testun.

## Cymhariaeth/ Cyffelybiaeth

**'Roedd yr olwg ar wyneb Gwyn yn un roedd Owain yn ei nabod, ac yn ei ofni: yr olwg honno a ddôi i'w wyneb pan fyddai'n tynnu torogen o groen dafad ac yn ei gwasgu'n slwts o waed a chroen rhwng ewinedd ei ddau fawd.'**

Mae Owain yn sylweddoli fod Gwyn o ddifri' wrth ymladd Watts. Mae'n adnabod yr olwg sydd ar ei wyneb ac yn cofio mai'r un olwg ar wyneb Gwyn a welodd adref ar y fferm wrth iddo dynnu torogen o groen dafad. Mae angen penderfyniad i wneud hynny ac mae'r un penderfyniad yma wrth iddo fynd i'r afael â Watts. Gwyddai Owain y gallai ei frawd ei falu fel y gwnâi wrth wasgu torogen 'yn slwts rhwng ewinedd ei ddau fawd' a dyna pam yr ymyrrodd yn y ffeit cyn i bethau fynd yn rhy flêr.

## Trosiad

Mae trosiad yma hefyd. Y 'dorogen' yw Watts, wrth gwrs. 'Torogen' neu 'trogen' (*tick*) yw math o bry' bychan sy'n byw ar anifail arall. Defnyddir yr enw i ddisgrifio sinach neu hen berson slei. Dyma drosiad effeithiol i ddisgrifio Watts oherwydd hen sinach yw hwn, a gwelwn ei fod yn dibynnu ar ei ffrindiau sy'n debyg iddo i ymladd drosto – mae un o'i ffrindiau ar fin taro Gwyn yng nghefn ei ben yn ystod y ffeit. Gwyddom hefyd mai Dunning, un o fêts Watts a'i ffrindiau sydd yn chwarae tric budr ar Gwyn yn *assembly* yr ysgol.

## Cyflythrennu

**'disgyn ar ei din'**

Mae ailadrodd y gytsain 'd' – '**d**isgyn ar ei **d**in' – yn cyfleu bod Watts wedi'i lorio yma ac mae yma ddarlun digon doniol o'r giang-feistr. Hefyd mae'r gweir roddodd Gwyn yn cael ei chryfhau wrth ailadrodd y gytsain 'll'; mae'n rhoi '**ll**ef co**ll**wr' wrth ddisgyn ar lawr ac mae '**ll**if o waed yn tasgu o'i geg'. Pwysleisir yn y symudiad a'r llef mai Watts sydd wedi colli'r ffeit.

## Ailadrodd

**'Camodd un o fêts Watts allan o'r cylch bechgyn y tu ôl i Gwyn a chodi ei ddwrn i'w daro yng nghefn ei ben. Camodd Owain o'i flaen.'**

Mae ailadrodd y ferf 'Camodd' yn effeithiol. Un o fêts Watts sy'n camu gyntaf i godi dwrn a chwarae tric dan din o daro Gwyn yng nghefn ei ben. Yna Owain sy'n 'camu' i achub cam ei frawd ac y mae mwy o bendantrwydd yn y camu hwn gan ei fod yn helpu ei frawd ac yn fodlon herio'r 'mêt' yn dawel a di-ofn. Mae'n dwyn i gof hefyd yr idiom 'Camu i'r adwy' — nid berf oer yn diffinio symudiad sydd yma – mae'n dangos bod Owain yn ochri â'i frawd ac mae'r edrychiad yn llygaid Owain yn ddigon i wneud i 'fêt' Watts gilio.

Sylwer hefyd ar y modd y mae **'rhai'** yn cael ei ailadrodd yn y frawddeg, **'Edrychodd y ddau ar y dorf o'u cwmpas: y rhai siomedig fel cŵn wedi eu cosbi; y rhai a oedd yn dal i wenu fel giatiau yn hwyl y cynnwrf; y rhai a oedd yn oeraidd ddig o gasineb.'**

Dyma gyfleu i'r dim awyrgylch, grym a thymer torf ar ôl ffeit. Mae'n cyfleu yn fwy na dim mai ymladd ei frwydr ei hun y mae Gwyn a bod elfen o fwlio cryf yn yr ysgol. Tra bod y carfannau o fewn y dorf yn elyniaethus at Gwyn, cilio y mae Watts i ganol y dorf honno am fod 'diogelwch' iddo yno.

# ARDDULL – DARNAU PENODOL

tt. 42-43

**BRAWDDEG FER** | **CYFLYTHRENNU** | **BERFENWAU**

Wyth o'r gloch. Cyrion y gwersyll. Y gwarchodwyr yn codi eu dwylo'n gyfeillgar ar y ceir arfog a'r loriau'n gyrru heibio'u gwardfeydd pridd â'u tanau brecwast. Ychydig funudau'n ddiweddarach roedd y confoi'n gyrru i'r sgwâr gynnull. Dechreuodd torf o dduon hel o'i gwmpas o'r cytiau ar ymylon y sgwâr a rhedeg gydag ochr y cerbydau'n cyfarch ac yn codi llaw. Y tu hwnt i'r dorf roedd yna ragor ohonyn nhw'n dod, i weld a chroesawu'r newydd-ddyfodiaid. Criwiau, deuoedd a thrioedd, unigolion. Cannoedd ohonyn nhw.

Yn sydyn daeth bloedd, a phwyntio a gweiddi. Dechreuodd y dorf gilio, ac un neu ddau i redeg yn bwrpasol at y cytiau, lle'r oedd eu gynnau. Roedd rhywun wedi sylwi bod rhai o'r wynebau y tu ôl i lenni'r loriau yn wynion. Ond roedd y confoi wedi cyrraedd canol y sgwâr, ac wedi dod i stop. Safai'n dawel am eiliad. Yna trodd tyredau'r cerbydau arfog i gyfeiriad y dorf a gollyngwyd ochrau cynfas y loriau.

"*Fire*!"

Ar ôl hergwd a braw cyntaf tanio gwn otomatig, dydi dyn – ac yntau'n un chwydd o adrenalin – prin yn clywed y gic na'r glec na'r gwres na'r oglau. A phrin yn sylwi ar y trin. Na'r twrw. Dim, ond y llwytho a'r ail-lwytho. A'r canolbwyntio. A'r chwilio am darged: cefn crwn byw neu fynwes, unrhyw un efo gwn.

A thanio nes i hwnnw ddisgyn, neu ddianc o'r golwg. A gwneud yr un peth eto. Ac eto.

Yna rhedeg. A chwilio a thanio. A galw am fwy o getris. A llwytho a symud ymlaen.

A chwilio. A thanio.

Ac yna mae o drosodd.

Y corff yn dal i bwmpio ond dim byd ar ôl i'w saethu. Rhedeg, galw, chwilio. Edrych eto. Craffu ar y cyrff – oes yna un yn ffugio bod yn farw, ar fin tanio pistol neu daflu bom?

Ac yna llais y *Sergeant*, yn canmol, yn tawelu, yn rhoi gorchmynion i bylu'r min lladdgar. Yn gosod rhai i wylio a rhai i wneud paned. A gadael unrhyw *terrorists* – ym mherthi'r *veldt* ac yn dal i redeg – i'r awyrennau.

*Rhowch y llygoden dros y blwch nodwedd a bydd yr enghraifft yn cael ei hamlygu yn y testun.

## Cyferbyniad

Y mae cyferbynnu amlwg rhwng naws ac awyrgylch dechrau'r darn hwn a'r ffordd mae'n cloi. Y mae ymdeimlad cynnes a'r dorf yn y gwersyll wrth groesawu'r ceir arfog a'r lorïau fel petaen nhw'n croesawu ffrind mynwesol - maen nhw'n 'codi eu dwylo'n gyfeillgar', 'yn rhedeg gydag ochr y cerbydau'n cyfarch ac yn codi llaw'. Mae'r rhedeg yn y paragraff clo yn rhedeg o fath gwahanol. Rhedeg i ffwrdd a wneir a'r dorf gyfeillgar yn *terrorists* yn ffoi am eu bywydau. Mae'r awyrgylch yn llawn arswyd a'r fyddin wedi meddiannu'r gwersyll drwy drais a thwyll. Yr hyn sy'n rhoi ias bellach i'r cyferbynnu yw mai 'torf o dduon' sy'n croesawu'r confoi ar y dechrau a'r hyn wnaeth iddyn nhw sylweddoli mai dod yno i ymosod y mae'r confoi hwnnw yw bod un person - sef 'rhywun' wedi sylwi bod y wynebau tu ôl i lenni'r lorïau yn 'wynion'. Ymosodiad hiliol didrugaredd ydyw.

## Berfenwau

**'Yn rhedeg. A chwilio a thanio. A galw… A llwytho….a chwilio. A thanio.'**

Sylwer ar y berfenwau sy'n frith yn y darn .'Yn rhedeg. A chwilio a thanio. A galw... A llwytho... A chwilio. A thanio.' Maen nhw'n cyfleu symudiadau cyflym disgybledig milwyr ar gyrch. Maen nhw'n fwy effeithiol na berfau yma – byddai berfau yn cyfleu pwy sy'n lladd – mai dynion sy'n lladd. Yma mae'r lladd yn amhersonol hollol. Teimlir mai peiriannau ac nid dynion sy'n gweithredu yma. Effeithiol yw'r saib byr, 'Ac yna mae o drosodd.' Teimlir y rhyddhad yn y frawddeg. Ond rhyddhad dros dro ydyw oherwydd wrth gwt y geiriau daw'r tripledi o ferfenwau 'rhedeg, galw, chwilio'. Tri berfenw oer mewn brawddeg sy'n cyfleu adrenalin y milwyr ar waith eto, ac ailadrodd rhai berfenwau megis 'chwilio' a 'thanio' yn awgrymu bod eisiau'r sicrwydd bod y gelyn wedi'i ddifa'n llwyr.

## Cyflythrennu

**'prin yn clywed y gic na'r glec na'r gwres na'r oglau!'**

Effeithiol yw'r cyflythrennu yn y llinell 'prin yn clywed y gic na'r glec na'r gwres na'r oglau.' Tri gair a'r gytsain 'g' yn pwysleisio mor sydyn a pheiriannol y mae dyn yn tanio'i wn otomatig a lladd.

## Brawddegau byr

**'Yna <u>rhedeg</u>. A <u>chwilio</u> a <u>thanio</u>. A <u>galw</u> am fwy o getris. A <u>llwytho</u> a <u>symud</u> ymlaen. A <u>chwilio</u>. A <u>thanio</u>.'**

Brawddegau byr, stacato a ddefnyddir i gyfleu'r ffordd mae'r milwyr yn lladd. Mae llawer o'r brawddegau yn dechrau gyda'r cysylltair 'A' i bwysleisio yr holl bethau y mae'r milwyr wedi'u hyfforddi i wneud, ac fe wnân nhw hynny yn oeraidd a disgybledig.

# ARDDULL – DARNAU PENODOL

tt. 54-55

ANSODDEIRIAU

CYMHARIAETH / CYFFELYBIAETH

TROSIAD

Daeth Gwyn yn ymwybodol o bresenoldeb trydydd un yng nghylch eu sgwrs, un a safai'n ymwthiol o agos. Trodd gydag Armon Morris i edrych arno. Roedd yno siaced ddu, côt wau werdd, a chrys rhad glas streipiau coch tenau, coler lydan. Codai gwddf twrci o honno. Ac o fôn a llabedi'r clustiau mawr llac a grogai uwchben, brigai clympiau o flew cydnerth. Roedd y wyneb yn un hir a main, a blew brith glaswellt-mewn-gwynt y bochau cafn a'r ên yn amlwg heb eu siafio ers y Sul. Ac o dan pig seimllyd y cap stabal fe lechai pâr o lygaid tywyll sbeitlyd.

Roedd Gwyn yn ei led-nabod o: tenant Cyrn y Bwch, Selattyn, un o ffermydd stad Brogyntyn.

"Oes gen ti *leaflet*?"

"Taflen 'Ie dros Gymru' dech chi'n feddwl?"

"Ie."

Estynnodd Gwyn i'w boced. Beth oedd gan hwn ar ei feddwl? Roedd bloesgni yn y wyneb tenau, a'r llaw a gipiodd y daflen yn debyg i grafanc cranc.

Camodd y cipiwr yn ei ôl oddi wrth Gwyn ac Armon Morris i edrych ar y daflen. Ond ddarllenodd mohoni. Yn hytrach, fe'i daliodd o'i flaen a'i hystumio i'r chwith ac i'r dde, a'i wyneb yn yr un modd – fel wyneb cloc tegan – ei lygaid fel soseri a'i geg fel ceg clown wynepwyn. Parhaodd â'i berfformiad coeg-simpil am rai eiliadau. Ac yna newidiodd ei wedd. Culhaodd y llygaid, ac ystumiwyd y rhychau cras yn rhychau casineb.

Gwasgodd y daflen yn lwmpyn crwn a throi ei gefn at Gwyn gan blygu ymlaen ar yr un pryd. Cyflwynodd y daflen i fforch gefn ei drowsus. Ac yna, yn bwyllog orfoleddus, fe'i llusgodd hi i fyny hollt ei din.

A chyda chwifiad buddugoliaethus fe'i taflodd hi i'r llawr, â'i lygaid ar Gwyn cystal â dweud, "Be wyt ti'n feddwl o hynny 'te?" Roedd Armon Morris yn gegrwth.

Ond roedd Gwyn yn ddig. "Rhag dy g'wilydd," chwyrnodd. "Y diawl budur."

"Na, cer di i'r diawl, y *Welsh Nash*," meddai'r llall. "Dwi gystal Cymro â chdi bob tamed, a dwi na neb call arall isio dim o dy blydi *devolution*."

# ARDDULL – DARNAU PENODOL

ANSODDEIRIAU

CYMHARIAETH / CYFFELYBIAETH

TROSIAD

"Cystal Cymro â mi, wyt ti? Rhaid nad ydi o'm yn amlwg iawn neu 'set ti'm yn gorfod deud wrth bawb."

Erbyn hyn roedd wynebau'r ddau fodfeddi oddi wrth ei gilydd a thorf wedi dechrau hel o'u cwmpas. Cododd cranc Brongyntyn ddwrn a'i bwnio i gyfeiriad gên Gwyn. Rhwystrodd Gwyn yr ergyd â'i fraich chwith a pharatoi ergyd ei hun â'i dde.

Tynnwyd ei ddwrn yn ôl ac ynghanol 'woow' a 'hei hei' a ''na ddigon 'ŵan' gafaelodd breichiau cryfion ynddo a'i symud o gyrraedd y llall. Gafaelodd rhywrai eraill yn hwnnw a gwahanwyd y ddau. Roedd Gwyn yn dal i fod yng ngafael y breichiau cryfion pan ddaeth Armon Morris i'w olwg.

*Rhowch y llygoden dros y blwch nodwedd a bydd yr enghraifft yn cael ei hamlygu yn y testun.

## Ansoddeiriau

Y mae nifer o ansoddeiriau yn y paragraff cyntaf i ddisgrifio tenant Cyrn y Bwch, Selattyn. Maen nhw wedi eu hadeiladu'n ofalus. Dechreua'r paragraff drwy gyfeirio at ei ddillad – ei siaced **ddu** a'i gôt wau **werdd**, ac yna at yr olwg flêr ddiolwg arno gyda'r clympiau o flew **cydnerth** ar fôn ei glustiau. Dyma ansoddair sy'n anifaleiddio'r dyn. Ansoddeiriau anghynnes sydd yma hefyd i ddisgrifio pig ei gap stabal - un **seimllyd** ydyw fel ei berchennog. Yna mae'r paragraff yn cloi gyda dau ansoddair sef **tywyll** a **sbeitlyd** i ddisgrifio'i lygaid. O gofio mai'r llygad yw ffenestr y corff dyma gloi'n effeithiol a'r darllenydd yn cael gweld sut ddyn yw'r 'tenant' hwn, ac mae'n ei baratoi at weddill yr olygfa.

## Cymhariaeth/ Cyffelybiaeth

**'wyneb cloc tegan – ei lygaid fel soseri a'i geg fel ceg clown'**

Dyma dair cymhariaeth i gyfleu ystumiau'r gŵr wedi iddo smalio darllen taflen 'Ie dros Gymru' Gwyn. Mae'r goractio a'r gorystumio yn dangos iddo gynllwynio'i ateb ymlaen llaw - dangos i ddechrau iddo gael sioc a bod cynnwys y daflen yn hollol chwerthinllyd iddo. Dyna pam mae ei 'wyneb fel cloc tegan, ei lygaid fel soseri a'i geg fel ceg clown wynepwyn'. Roedd yn gwybod hefyd y byddai perfformio fel hyn yn ffordd o fachu cynulleidfa. Yna yr un mor grefftus mae'r dilorni chwerthinllyd yn troi'n ymosodiad milain gyda'i lygaid yn culhau a'r rhychau ar ei wyneb yn rhychau casineb.

## Trosiad

**'Cranc'** yw'r trosiad yma i ddisgrifio tenant Brogyntyn. Mae'n un sy'n gallu brathu gyda'i eiriau brwnt, ac fel cranc yn gwrthod gollwng gafael ar Gwyn. Mae'n ei wawdio a'i herio'n eiriol yn ogystal â'i fychanu a'i ddifrïo ac yn barod i ddefnyddio'i ddyrnau. Bu ond y dim iddi fynd yn sgarmes rhwng y ddau. Defnyddir y gair 'cranc' hefyd i ddisgrifio rhywun croes, piwis a sarrug a dyma ddisgrifiad perffaith o'r gŵr hwn. Diddorol yw nodi nad yw'r awdur wedi rhoi enw cyntaf iddo – mae'r ansoddeiriau a'r trosiad hwn yn ddigon i gyfleu natur anghynnes ei bersonoliaeth, ac efallai ei fod yn symbol o sawl tenant tebyg oedd o'r un farn ag ef.

# ARDDULL – DARNAU PENODOL

tt. 84–85

ANSODDEIRIAU

CYMHARIAETH / CYFFELYBIAETH

TROSIAD

Roedd cynnig Longshaw fel wadin Duraglit, y stwff a ddefnyddiai Owain i roi sglein ar ei fyclau a'i fotymau pres, peth meddal a buddiol ar yr olwg gyntaf, ond a oedd wrth ei drin yn amlygu bachau bach mileinig ac oglau fel piso ci.

Beth os oedd Owain yn gwrthod y cynnig?

Roedd Longshaw yn siŵr fod Owain yn ddigon ymwybodol o sefyllfa Gogledd Iwerddon i wybod beth a allai ddigwydd i rywun nad oedd wedi ei 'gadw o'r golwg', fel petai.

Roedd Owain yn fwy nag ymwybodol. Teimlai ludded yn cynyddu yn ei fynwes fel balŵn blwm. A phresenoldeb Wilson a'r pistol trwm a gariai hwnnw dan ei gesail yn tyfu nes troi'n llethol. Ac anadl y 'porthor' – er gwaetha'r teirllath o ofod rhwng y soffa a'r man lle y safai hwnnw wrth y drws – yn anghynnes o boeth ar ei wegil.

Ysgydwodd ei hun. Nid dyma oedd y lle na'r amser i ildio i adwaith braw.

Pwysodd Longshaw yn ei ôl. Estynnodd ei freichiau ar hyd topiau esmwyth ei Chesterfield.

"*Why fight it?*" meddai. "*Why not just go with the flow?*"

Canodd cloch yng nghefn meddwl Owain. Nid y gloch rybudd a oedd wedi bod yn dyrnu ei hun yn ddim rhwng ei ddwy arlais ers iddo ddod i'r parlwr pry cop 'ma. Ond hen, hen gloch yn canu'n dawel yn un o gilfachau pell ei gof – ynglŷn â Gwyn, a'i styfnigrwydd, a'i wrthryfel yn erbyn diwylliant Ysgol Dre. A nythod gwenoliaid yn chwilfriw ar lawr y quad.

Roedd Longshaw'n ei wylio, yn disgwyl ateb.

A daeth Owain i benderfyniad.

Roedd pob llwybr, yn y pendraw, yn arwain i'r un lle. A doedd dim modd troi'n ôl ar yr un ohonyn nhw.

Ond roedd modd gwneud iawn.

Edrychodd ar Longshaw a dweud yn ddidaro,

"*Sounds good to me.*"

AILADRODD DELWEDD

BERFAU

*Rhowch y llygoden dros y blwch nodwedd a bydd yr enghraifft yn cael ei hamlygu yn y testun.

tt. 84-85

## Cymariaethau/ Cyffelybiaeth

**'fel wadin Duraglit'… 'fel piso ci'**

Ceir dwy gymhariaeth yn y paragraff agoriadol sy'n cyffelybu cynnig Longshaw i Owain, y naill 'fel wadin Duraglit' a'r llall 'fel piso ci'. Mae'r cyntaf yn dangos pa mor dwyllodrus oedd y cynnig – yn ymddangosiadol ddeniadol ond o dan yr wyneb yn filain ac yn cynnwys 'bachau' fyddai'n peryglu ac yn brifo Owain. Mae'r ail gymhariaeth yn gryfach fyth ac yn dweud fod y cynnig hwn yn drewi ac nad oes rhesymau cyfiawn a da tu ôl iddo.

## Ansoddeiriau

**'pistol trwm' / 'anadl anghynnes'**

Disgrifio Wilson, sef partner Longshaw a wna'r ansoddeiriau. Y mae gan bob bwli (Longshaw) eu cyfeillion sydd wrth eu cwt bob amser. Eu gwaith yw bygwth a chodi ofn a rhoi ias i lawr y meingefn. Dyna yw pwrpas yr ansoddeiriau yma. Y mae'r 'pistol trwm' o dan gesail Wilson yn pwyso ar Owain er nad yw yn ei weld. Mae'n gwbl ymwybodol ei fod yna. Yn yr un modd, mae'n ymwybodol o'i 'anadl anghynnes' sy'n 'boeth' ac yn ormesol ar ei wegil.

## Berfau

'**Pwysodd** Longhshaw yn ei ôl. **Estynnodd** ei freichiau…'

Dyma ddwy ferf effeithiol sy'n cyfleu bod Longshaw yn rheoli'r sefyllfa hon yn llwyr. Tra bod Owain dan bwysau y mae Longshaw wedi ymlacio'n llwyr – mae iaith corff y gŵr yn cyfleu hynny i'r dim yma. Mae'n pwyso yn ei ôl ac yn estyn ei freichiau ar hyd ei gadair ddrudfawr ledr – y Chesterfield. Mae'r gadair yma yn symbol o gyfoeth a grym. Nid tlotyn mohono ond gŵr ariannog yn chwarae gêm fudr ac yn gwybod yn iawn beth yw hyd a lled ei gynnig, ac na all Owain ei wrthod. Dyma olygfa sy'n dwyn i gof sawl dihiryn mewn ffilm James Bond.

## Trosiad

**'Parlwr pry cop'** yw ystafell Longshaw i Owain. Daliwyd ef yng ngwe y pry copyn sef Longshaw. Mae gwe pry cop yn un gywrain ac wedi'i gweu'n ofalus – felly cynllun Longshaw hefyd. Tasg anodd i unrhyw bry yw dod yn rhydd o unrhyw we unwaith y mae wedi'i ddal, a dyna fydd tasg Owain. Sylwer hefyd bod y pry cop mewn 'parlwr' nid mewn seler nac mewn ystafell dlawd yr olwg, frwnt. Mae hyn yn creu darlun mwy sinistr o Longshaw. A oes awgrym fod ei feistr newydd wedi hen arfer chwarae gemau fel hyn?

## Ailadrodd/ Delweddau

**'cloch'**

**'go with the flow'**

Mae'r ailadrodd a'r defnydd a wneir o'r **'gloch'** yn grefftus yma. Mae geiriau Longshaw ***'go with the flow'*** yn canu cloch i Owain gan ei fod yn ailadrodd geiriau a ddywedodd ef ei hun wrth ei frawd Gwyn yn yr ysgol. Roedd Owain am i Gwyn '*relax*-io' yn yr ysgol – a '*go with the flow*' – sef ceisio bod fel pawb arall yn hytrach na bod yn ef ei hun. 'Y pawb arall' wrth gwrs oedd y Saeson yn yr ysgol. Yr eironi y tro hwn yw mai Sais sy'n cymell Owain i fynd gyda'r '*flow*'. Effeithiol hefyd yw ailadrodd 'cloch'. Roedd y gloch yn y 'parlwr' yn Llundain yn un a oedd yn ei rybuddio ei fod mewn perygl, sy'n cyferbynnu â'r gloch arall oedd yn canu'n dawel yn ei ben. Cloch cydwybod yw hon, ac o bosib bod clywed y gloch honno yn ei frifo ac yn ei ddychryn yn fwy na'r un gyntaf.

# ARDDULL – DARNAU PENODOL

tt. 118-120

BERFAU

PERSONOLI

ANSODDEIRIAU

Bang.
Pan mae rhywbeth annisgwyl yn digwydd mae'n cymryd eiliad neu ddwy i feddwl dyn ddod oddi ar y trywydd roedd yn ei ragweld ac i ddeall yr hyn sy'n digwydd. Erbyn i feddyliau Owain a'r milwyr eraill wneud hynny roedd yr hofrennydd ar lwybr pen coelbren i'r môr.

Roedd y distawrwydd ar ôl dwndwr yr injan yn annaearol. Doedd dim i'w glywed ond rhuthr yr awyr heibio i gorff yr hofrennydd a rhywle, ymhell i ffwrdd, llais y peilot yn galw *mayday*. Gafaelodd y dynion yn dynn yn ymylon eu seddi, eu hwynebau mor llwyd ag yr oedd eu migyrnau'n wyn. Cwympai'r hofrennydd wysg ei drwyn, yn serthach ac yn serthach nes ei fod yn plymio'n syth ar i lawr.

Estynnodd Owain at handlen y drws a'i thynnu. Chwipiwyd y panel metal ar agor a thrawyd tu mewn y caban a'r dynion gan hyrddiad llif y gwynt. Ciciodd Owain y sachau bergen, a'r arfau a oedd wedi disgyn ar bennau ei gilydd i flaen y caban allan drwy'r drws a neidio ar eu holau. Dilynodd y lleill ar ei ôl.

Trawodd y dŵr â'i draed yn gyntaf a bu bron i fraw'r trawiad a'r oerni wagu ei ysgyfaint. Aeth o dan y wyneb, a chafodd ei hyrddio gan don trawiad yr hofrennydd ar wyneb y môr. Clywodd freichiau trwm y rotor yn byrlymu heibio iddo, ar i lawr.

Gollyngodd wynt o'i geg ychydig ar y tro a dechrau tynnu gyda'i freichiau am y goleuni uwch ei ben. Roedd yr oerni'n iasol.

Ond roedd rhywbeth yn ei rwystro, yn ei dynnu i lawr. Roedd harnais rhywbeth, gwn peiriant yn ôl ei bwysau, wedi clymu ei hun o gwmpas e ffêr. Ciciodd ei goesau i geisio'i ysgwyd i ffwrdd ond roedd yr harnais, a phwysau'r gwn, yn gwrthod ei ollwng. Plygodd i'w ryddhau â'i ddwylo. Brwydrodd ei fysedd ag ymylon tyn y strap, a llithro yn y gwlybaniaeth fferllyd dros y neilon slic di-ildio. Ble roedd ei gyllell? Gwingodd yn ôl ac ymlaen fel pysgodyn ar fachyn gan ymestyn ar i fyny ac yna'n ôl i lawr at ei ffêr. Gwthiai'r boen yn ei ben fel gwaedd yn erbyn asgwrn ei benglog ac roedd ei ysgyfaint yng ngafael dwrn haearn tyn.

Aeth ei frwydro'n fwy ac yn fwy gwyllt. A'r ofn yn ei fynwes yn anoddach i'w reoli.

A'r dŵr a lapiai o'i gwmpas yn oerach.

Ac yn dduach...

*Rhowch y llygoden dros y blwch nodwedd a bydd yr enghraifft yn cael ei hamlygu yn y testun.

## Personoli

**'Cwympai'r hofrennydd wysg ei drwyn'**

**'breichiau trwm y rotor'**

Darlun o ddamwain ar ddigwydd sydd yma. Y mae 'trwyn' neu flaen yr hofrennydd yn plymio ar i lawr ac mae hyn yn cyfleu'r tyndra. Mae'r personoli'n llwyddo yma gan fod y darllenydd yn gwybod yn iawn bod gwrthdrawiad ar fin digwydd. Mae'r personoli hefyd yn gwneud i'r digwyddiad ennyn mwy o gydymdeimlad na phetai'r awdur ddim wedi defnyddio'r gair 'trwyn'. Llwyddwyd i uniaethu'n well â'r hofrennydd a theimlo i'r byw gyda'r bobl oedd ynddi. Enghraifft arall o bersonoli yw'r cyfeiriad at 'freichiau trwm y rotor'.

## Berfau

**'Estynnodd'/ 'Chwipwyd'/ 'Ciciodd'/'Dilynodd'**

Y mae'r defnydd o ferfau yn effeithiol yma ar ddechrau brawddegau y trydydd paragraff. Maen nhw'n cyfleu ymgais Owain i wneud rhywbeth, ac yntau'n gwybod yn iawn bod damwain ar ddigwydd. Mae'n gwybod yn union beth i'w wneud ac mae'n gallu gweithredu dan bwysau. Darlun o filwr a'i holl synhwyrau ar waith sydd yma. Mae'r un dechneg mewn paragraff arall gydag Owain yn 'cicio', 'plygu', brwydro a 'gwingo'.

## Ansoddeiriau

**'yn oerach/ yn dduach'**

Mae dwy frawddeg y darn hwn yn cloi gydag ansoddeiriau 'yn oerach', yn 'dduach'. Mae'r ffaith fod yr awdur wedi defnyddio ffurf gymharol yr ansoddair 'oer' yn pwysleisio bod pethau yn gwaethygu i Owain. Nid 'A'r dŵr a'i lapiai o'i gwmpas yn oer' sydd yma ond 'oerach'. Pwysleisia hyn ddifrifoldeb y sefyllfa.

Mae'r darn yn cloi gyda 'duach...' a'r elipsis ar ei ôl yn gweithio'n hynod effeithiol. Mae'r elipsis yn siarad cyfrolau hefyd – does dim rhaid dweud beth yw tynged Owain. Mae'r darllenwr yn gwybod fod Owain wedi marw.

### TASG

Mae mwy o nodweddion iaith ac arddull yn y darn darllen. Dewiswch 4 ohonynt ac yna

- Labelwch nhw.
- Eglurwch pa mor effeithiol ydyn nhw.

# ARDDULL – DARNAU PENODOL

tt. 136-137

CYFERBYNNU / CYFOCHRI

CYFLYTHRENNU / TROSIAD

Aeth yr hofrennydd i mewn i'r niwl a theimlodd pawb drwy'r hofrennydd yr oerni yn y gwynder a lapiai o'u cwmpas. Roedd y gwres ymlaen ond fe deimlai fel petai tymheredd y caban wedi gostwng sawl gradd a bod ei foelni llwydwyrdd yn sydyn yn llwytach ac yn fwy llwm.

Rhywle yn y gwynder o'u blaen roedd Kintyre ac yno dan gysgod ei mynyddoedd roedd angen newid cwrs, troi i'r chwith a dilyn yr arfordir i Inverness. Tynnodd Rickard y golofn lywio'n ôl fymryn er mwyn eu codi'n raddol i uchder diogel. Teipiodd Tanner y newid i'r cyfrifiadur mordwyo, yn barod ar gyfer y tro.

Daeth mynydd i'r golwg.

Nid ochr mynydd, yn llethru i lawr o ucheldir ar y dde i ewyn a chreigiau'r môr oddi tanyn nhw ar y chwith. Ond wyneb creigiog yn codi uwch eu pennau ac yn ymestyn o'r golwg i bob cyfeiriad. Roedden nhw gannoedd o fetrau o'r man lle'r oedden nhw i fod.

Tynnodd Rickard â holl nerth ei fraw ar y liferi llywio. Ceisiodd godi'r cyflymder esgyn.

A llwyddodd.

Dechreuodd yr hofrennydd godi a throi.

Ond roedden nhw rhyw ganllath o'r mynydd, yn teithio ar gyflymder o gan pum deg not.

Trawodd yr hofrennydd bigau craig frig. Malwyd ochr dde'r trwyn a rhwygwyd y rhan fwyaf o'r gwaelod a'r gynffon i ffwrdd. Adlamodd yn ôl i'r awyr â'i rotorau'n dal i droi ac yn hacio sleisiau o'i ochrau. Trodd yn ffyrnig yn yr awyr am bron i ddau gan llath cyn glanio ar ei gefn a hollti'n ddau. Llithrodd y darnau drwy'r rhedyn am rai llathenni ond o fewn eiliadau roedd y cwbl yn weddillion llonydd. Gorweddai fel celain, a'i asennau wedi eu chwalu'n agored a'i berfedd ar hyd y tir. Yr unig symudiad yn ysgyrion yr esgyrn oedd cilio a chynyddu tafodau tân y tanwydd a chwildroi tawel y mwg du.

A dawnsio niwl y mynydd.

ONOMATOPEIA / PERSONOLI

DELWEDD

*Rhowch y llygoden dros y blwch nodwedd a bydd yr enghraifft yn cael ei hamlygu yn y testun.

tt. 136-137

## Delweddau

**y mynydd a'r niwl**

Ceir dwy ddelwedd yn y darn hwn – y mynydd a'r niwl. Mae'r ddelwedd o'r mynydd yn bwysig yn y nofel – yn symbol o gadernid (t. 58) ac o rym gorchfygol natur. Yma mae'r mynydd yn dangos pa mor ddi-rym a bychan yw hofrennydd yn eangderau'r mynyddoedd. Mae'r olygfa hon yn cyferbynnu â golygfa arall yn y nofel pan mae Richard Lloyd a Gwyn yn gweld awyren ryfel yn hedfan yn hyderus drwy'r cwm. Hedfan i ddinistr wna'r awyren hon.

Sylwer hefyd ar ddechrau'r testun. Mae'r awyren yn hedfan 'i'r niwl' ac yna ar y diwedd un mae'r frawddeg symbolaidd 'A dawnsio niwl y mynydd'. Mae'r niwl yn symbol o natur yn llyncu creadigaethau dyn. Mae hwnnw'n 'ddim' o gymharu â grym natur.

## Cyferbynnu/ Cyfochri

Y mae yma gyferbynnu a chyfochri cyson rhwng yr hofrennydd a natur – e.e. hofrennydd a phigau craig frig, darnau o'r awyren a'r rhedyn. Mae hyn yn cyfleu'r gwrthdrawiad a bron na theimlir bod brwydr rhwng yr awyren a'r mynydd yma.

## Onomatopeia

**'ysgyrion esgyrn'**

Mae yr 'ysgyrion esgyrn' yma yn cyfleu maint y ddamwain – mae'r awyren yn siwrwds ac wedi'i malu'n ddarnau, ond maen nhw'n symud rhyw fymryn cyn llonyddu. Effeithiol hefyd yw personoli darnau o'r awyren yn esgyrn. Mae'n rhoi mwy o ias yn y darllen.

## Cyflythrennu

**'tafodau tan y tanwydd'**

Sylwer ar y modd mae'r gytsain 't' yn tynnu sylw at y tân. Tafodau o dân yw'r tanwydd – a dyma drosiad effeithiol. Dyma ddarlun graffig byw o'r llanastr wedi'r ddamwain.

### TASG

Mae mwy o nodweddion iaith ac arddull yn y darn darllen. Dewiswch 4 ohonynt ac yna

- Labelwch nhw.
- Eglurwch pa mor effeithiol ydyn nhw.

# THEMÂU

***(Bydd darllen sylwadau'r awdur o gymorth mawr wrth ddadansoddi'r themâu. Bydd cyfeiriad at yr hyn mae'n ei ddweud mewn ambell sylw yma.)***

## 1. Perthyn

### i) Perthyn brawdol

Y mae'r ymdeimlad o berthyn yn thema bwysig yn y nofel hon. Nofel yn dilyn hanes dau frawd yw *Dim*, ac er bod y brodyr yn torri eu cwys eu hunain ac yn pellhau oddi wrth ei gilydd am gyfnod, mae'r cwlwm brawdol sydd rhwng y ddau yn aros yn gadarn. Cafodd y bechgyn ergydion pan oedden nhw'n ifanc; bu farw eu mam ar enedigaeth Owain ac yna collodd y ddau eu tad mewn damwain. Roedd ganddyn nhw berthynas glòs a chariadus iawn yn ystod eu plentyndod. Does byth sôn am un brawd heb fod sôn am y llall, fel eu hanes yn chwarae gartref ar y fferm ym Mlaencwm.

Y mae un digwyddiad o'u plentyndod yn eu clymu, ac mae arwyddocâd pellach iddo ar ddiwedd y nofel sef 'damwain' Owain pan neidiodd o ben y goeden griafolen wrth chwarae milwyr ar ddiwrnod y *Fête*. Doedd Gwyn ddim wedi dweud wrth neb mai neidio a wnaeth ei frawd. Gŵyr Owain felly am deyrngarwch ei frawd iddo ac nid yw wedi ei anghofio er gwaethaf y dieithrio.

Mae dechrau'r dieithrio i'w weld yn ystod eu dyddiau ysgol mewn ysgol breifat, ac yno y cawn wybod am ddaliadau'r ddau. Mae Owain yn mwynhau ei fywyd fel disgybl ac yn derbyn y drefn sydd yn yr ysgol. Bachgen '*go with the flow*' ydyw tra bod Gwyn ar y llaw arall yn ei holi ei hun, yn methu '*relax*-io' (cyngor Owain iddo) ac yn methu'n glir â dygymod mewn awyrgylch Seisnig lle caiff y Cymry eu bychanu. Nid yw Gwyn yn un am blesio er mwyn plesio, fel ei frawd.

Eto, er bod Owain yn derbyn y drefn a 'chadw i mewn' gyda phawb, ef sy'n helpu ei frawd pan mae mewn ffeit gydag Alistair Watts yn yr ysgol. Gwna hynny nid oherwydd ei fod yn cytuno gydag agwedd Gwyn ond oherwydd mai ei frawd ef ydyw – mae gwaed yn dewach na dŵr iddo. Mae'n deyrngar i'w frawd.

Mewn golygfa arall caiff ei gorddi pan mae Padfield, un o'i gyd-Gadetwyr, yn tynnu ei sylw at fyfyrwyr Bangor ar y teledu gan ddweud, '"*Look at 'em, bloody Welsh. Wasters.*"' Er ei fod yn 'ddig at ei frawd' am fod yn rhan o'r brotest yn erbyn awdurdodau'r coleg mae Owain yn troi ar Padfield ac yn rhoi pryd o dafod iddo. Dyma enghraifft arall ei fod yn cadw ar ran ei frawd.

Mae pethau'n mynd 'yn flêr', fel y dywedodd Owain yn ei lythyr, rhwng y ddau frawd y diwrnod cyn angladd Richard Lloyd eu hewythr. Daw Owain adref a dechrau holi Gwyn. Mae'n amau fod gan Gwyn wybodaeth am yr ymgyrch llosgi tai haf. Sylweddola yntau mai pysgota am wybodaeth mae Owain a dywed wrtho, '"Wedi dod 'ma fel plismon wyt ti 'nte. Gwas i'r Drefn. Hyd 'n oed heno... Fuaset ti 'di dod i'r angladd o gwbwl 'blaw bod gen t'isio'n holi i?"' Geiriau miniog a chaled yw'r rhain gan Gwyn, ac o ganlyniad mae Owain yn methu bwyta'i swper ac yn mynd i'w wely. Ond gwelir y tynerwch a'r cwlwm sydd rhwng y ddau er gwaethaf popeth mewn paragraff allweddol ar ddiwedd y bennod hon (Pennod10). Yn ei wely mae Owain yn clywed synau ei frawd yn y gegin oddi tano – clywed 'gwich y gadair wrth iddo bwyso ymlaen a cnoc ddwbl dawel ei ddau benelin ar y bwrdd' – synau sydd fel curiadau cydwybod yn ei ben. Yna daw Gwyn i'w lofft gyda hambwrdd ac yn 'wyn yn y gwyll, roedd mygaid o de poeth a phlataid o frechdanau cig.' Er mor fregus y berthynas rhwng y ddau frawd ac er y pellhau – mae'r teimlad o berthyn yna o hyd. Er gwaethaf popeth maen nhw'n cynnal ei gilydd.

Ar ddiwedd y nofel mae'r ddau yn driw i'w gilydd. Mae Owain yn gwybod yn reddfol bron y gall ddibynnu ar ei frawd. Gwyn gariodd ef i'r tŷ wedi iddo syrthio oddi ar y griafolen, a gwyddai y byddai Gwyn hefyd yn mynd i Fanc Ernst Brandli yn y Swistir ac yn darllen y llythyr yr oedd wedi'i adael iddo. Efallai ei fod yn gwybod hefyd y byddai Gwyn yn penderfynu postio'r wybodaeth yr oedd ei frawd wedi'i chasglu yn yr amlen frown at Lysgennad yr Unol Daleithiau.

Gwnaeth hynny, o bosib i unioni cam ei frawd am iddo gael ei ladd yn fwriadol, ac am iddo gael ei ddefnyddio fel *pawn* gan ei gyflogwyr. Ond yr oedd gan Gwyn gydwybod gwleidyddol effro oedd yn pigo hefyd – roedd yn deall pa mor dwyllodrus a barbaraidd yw'r rhai sydd mewn grym. Efallai ei fod am siglo rhyw gymaint ar y drefn. Ymgyrchu neu weithredu ar ei ben ei hun bach yn erbyn y byd

efallai. Dyna wnaeth yn yr ysgol yn y ffeit. Daeth Owain i'w helpu yn y ffeit yn yr ysgol, ac ar ddiwedd y nofel dyma yntau yn uno eto mewn ffeit arall gyda'i frawd yn erbyn y byd. Onid yw hyn yn dangos y berthynas arbennig sydd rhwng y ddau?

Mae golygfa dlws ar ddiwedd y nofel sy'n dangos y berthynas arbennig rhwng Owain a Gwyn. Aiff Gwyn â'i fab ef ei hun i weld y griafolen sydd yn symbol o'r berthynas a'r brawdgarwch rhyngddo ef a'i frawd. Roedd yr amser wedi dod, meddai, iddo esbonio i'w fab arwyddocâd y griafolen. Ym mharagraff olaf y nofel cawn wybod fod Gwyn wedi enwi ei fab ('Now') ar ôl Owain. Mae hyn yn dangos cariad Gwyn at ei frawd a bod yma barhad. Mae'r ddau frawd fel petaen nhw'n cymodi.

**ii) Perthyn i fro a gwlad**

Y mae Gwyn yn symbol o'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn eu milltir sgwâr, ac sy'n teimlo ac yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o warchod Cymreictod eu bro. Mae'n fodlon bod yn amhoblogaidd wrth wneud hynny a chael ei wawdio am sefyll dros yr hyn mae'n ei gredu.

Tra oedd yn yr ysgol, Cymreictod Gwyn yn y bôn sy'n achosi iddo gael ei ddiarddel. Roedd yn fodlon bod yn wahanol a chafodd ei gam-drin a'i fwlio am hynny. Galwyd ef yn '*ignorant Welsh insect*' gan y Prifathro ac yn '*Welsh Wog*' gan Watts. Pan oedd yn fyfyriwr yn y Coleg ym Mangor protestiodd yn erbyn awdurdodau'r Coleg a daeth yr heddlu i Flaencwm i chwilio ei gartref a'i arestio.

Mae'r un angerdd ynddo pan ddaw adref i ffermio. Am ei fod yn cefnogi'r ymgyrch Ddatganoli wynebodd wawd a dirmyg tenant Cyrn y Bwch, Selattyn, sydd yn ei fygwth mewn sêl ddefaid. Yna gwelwn Gwyn yn fodlon lleisio'i farn yn Neuadd Llan yn erbyn cynlluniau Jeff Carrier, a oedd am droi chwarel y Granet yn westy a sba. Yn y cyfarfod cyhoeddus dywedodd, '"Nid cael maes carafanau neu hyd yn oed gwesty yn chwarel y Granet ydi'r ffordd ymlaen i'r dyffryn... gwedd newydd ar hen gêm yw hyn... ecsbloetio Cymru a buddiannau'i phobl er budd pobl o, wel, mi wyddon ni lle."' Mae'n cyfosod marwolaeth ei ardal gyda marwolaeth ei genedl ei hun. Ym marn Gwyn nid cynlluniau Jeff Carrier yw'r ffordd ymlaen i'r Dyffryn. Mae'n credu y dylid defnyddio'r arian i greu cronfa fenthyciadau llog isel i bobl ifanc sydd am ddechrau ffermio; rhoi grantiau i fusnesau bach a hyfforddi pobl i weithio yn y fro yn lle bod gwaith yn mynd i bobl 'o ffwrdd' (t 114). Mae am sicrhau'r gorau i bobl ei

fro ei hun.

Drwy Gwyn y gwelwn fod perthynas ag ardal a bro yn cynrychioli cariad at wlad. Mae'n dewis byw a ffermio gartref. Mae'n ddyn cymdogol, yn rhan o'r criw a fu'n helpu i 'hel mynydd' sef helpu ffermwr lleol, Edwart Hughes, i ddod â defaid i lawr o'r mynydd, ac mae'n mynd i'r Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Llywarch. Mae parchu traddodiadau ac etifeddiaeth ei gyndadau yn bwysig iddo. Wrth beidio â gwneud hyn mae yn ein gweld ni yn colli ein hunaniaeth a phopeth sy'n bwysig i ni fel Cymry.

Mae gan Owain yr un ymdeimlad o berthyn i wlad, ond Prydain yw ei wlad ef, nid Cymru. Dewisodd yrfa o weithio dros Brydeindod fel milwr gyda'r *SAS*. Ond wedi gweithio yn Rhodesia (Zimbabwe heddiw) a Gogledd Iwerddon, yn raddol bach sylweddola mai cael ei ddefnyddio a wnaeth a bod y bobl y mae'n gweithio iddyn nhw yn llwgr. Mae'n cael ei roi mewn cornel ac mae'n gweld nad oes ganddo ddewis ond derbyn cynnig Longshaw a chytuno i weithio fel *insurgent* iddo ef a'i giang. Yn ei lythyr at ei frawd mae'n dweud iddo sylweddoli yn rhy hwyr na fyddai byth yn cael ei dderbyn gan y bobl hyn, ac mai person bach dibwys oedd o mewn byd mawr.

**ii) Perthynas dyn â natur**

Mae'r nofel wedi'i lleoli mewn ardal wledig ac mae ffermdy Blaencwm, cartref y bechgyn, yn ganolog yn y stori. Bechgyn cefn gwlad ydyn nhw yn treulio eu plentyndod yn chwarae ar dir Blaencwm mewn nentydd byrlymus, yn chwalu brwyn wrth chwarae milwyr ac yn dringo coed. Mae perthynas Gwyn â natur yn ddyfnach na'i frawd. Ceir golygfa arbennig pan mae Richard Lloyd yn mynd ag ef i ben Bwlch Maengwynedd (tt. 57-58) a dangos anferthedd Cader Berwyn a Chader Bronwen iddo. Maen nhw fel tyrau sy'n ein cynnal. Dywed Richard Lloyd, '"'Den ni'r Cymry yn dallt y mynyddoedd a ma'n nhw'n 'n dallt ni."' Mynyddoedd tawel a chadarn ydynt sydd wedi wynebu sawl sgarmes - grymoedd natur, byddinoedd Lloegr yn croesi drostynt i ymladd y Cymry, ac awyrennau'r lluoedd arfog yn hedfan trostynt. Sylweddola Gwyn fod ganddo lawer i'w ddysgu oddi wrthynt. Mae fel petai'n mabwysiadu natur y mynyddoedd hyn wrth iddo aeddfedu yn y nofel a newid o fod yn danllyd a gwyllt i frwydro'n fwy tawel a diplomataidd.

Mae'n gweld hefyd fod natur yn goroesi dyn. Golygfa symbolaidd yw honno pan mae Gwyn a Richard Lloyd yn hel defaid ac yn gweld awyren filwrol ddu yn y mynyddoedd. Sylweddola Gwyn pa mor ddiwerth yw grym milwrol yng nghanol ehangder natur.

Perthynas mwy arwynebol â natur sydd gan Owain - mae'n ymarfer fel milwr yn y mynyddoedd ger ei gartref ac yn meddwl y gall ef fel milwr wrthsefyll a herio natur. Dywedodd Dafydd Chilton ei fod am awgrymu yn y nofel hon (gweler tud. 7) fod natur yn gallu bod yn fwriadol greulon tuag at y bobl sy'n ei herio. e.e. cofiwch fel y cwympodd Owain o'r griafolen ar ddechrau'r nofel.

***Ewch ati i ddarllen y golygfeydd isod ac ystyriwch sut mae'r thema Perthyn yn amlwg yma.***

Pennod 1 tt. 12-15
Pennod 2 tt. 18-22
Pennod 3 tt. 36-38
Pennod 10 tt. 96-101
Pennod 14 tt. 122-126
Pennod 14: Llythyr Gwyn
Clo : tt. 138-139

## 2. Brwydro

### i) Brwydro allanol gweledol

Mae nifer o frwydrau yn y nofel a llawer ohonyn nhw'n dreisgar, er enghraifft y lladd sydyn a didrugaredd yng Ngogledd Iwerddon Mae'r un olygfa hon yn cynrychioli yr holl drais a'r lladd a ddigwyddodd yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n dangos y cynllwynio gofalus a rôl yr *SAS* yn y brwydro. 'Roedd y sypiau cig yng nghragen y Cortina'n atgoffa Owain o'r gweddillion a welodd rywdro yng nghwt trin carcas Parri'r bwtsiar' (tt. 46-49).

Yna mae'r golygfeydd yn Rhodesia yn arswydus gyda'r ymosodiad neu'r '*hit*' sydyn didostur ar wersyll y *ZANLA* a'r lladd disgybledig tawel brawychus (tt. 42-43).
Mae yma ddarlunio trais Prydeindod ac ymyrraeth Prydain mewn gwledydd eraill – Iwerddon, Rhodesia, Ynysoedd Falkland a Chymru.

Wrth iddo gerdded Ffordd Saeson ger Bwlch Maengwynedd cofia Gwyn am Harri’r Ail, brenin y Saeson, yng nghyfnod y Normaniaid yn dod â byddin o ugain mil ar hyd y ffordd honno am ei fod am gymryd Cymru yn eiddo iddo ef ei hun. Ond cafodd Harri gweir ym Maes Crogen ac ni ddaeth fyth yn ôl. Ymyrraeth neu ‘drais’ o fath gwahanol sy'n cael ei ddarlunio yng Nghymru Gwyn a hynny drwy gynlluniau Jeff Carrier i ailwampio Chwarel y Granet a’i droi yn fusnes er ei fudd ei hun, ac nid er buddiannau Cymru a phobl leol yr ardal.

**ii) Brwydro mewnol**

Ar y dechrau mae gan Owain, fel milwr yn yr *SAS*, ran flaenllaw yn y brwydro a’r trais ond yn araf deg bach caiff ei ddadrithio yn yr hyn mae’n ei wneud, a dyna pryd mae’n dechrau ymladd brwydr fewnol ag ef ei hun. Mae’n flin ar ôl siarad gyda Joshua yn y *Bush* (t. 46). Mae’n gofyn i Joshua, ‘“Heb dir i fyw arno, dan drefn lle mae’r bobl sydd â’r grym i gyd yn eich casáu chi, sut fyddwch chi’n goroesi?”’ Ateb syml Joshua o dri gair sy’n ei anesmwytho, ‘“Drwy fod yma.”’ Dyna hefyd a wnaeth Gwyn – aros yn ei filltir sgwâr yn ei fro ei hun. Mae’n amlwg fod y sgwrs a gafodd gyda Joshua wedi gadael argraff arno gan ei fod yn cyfeirio ati yn ei lythyr olaf. ‘“Roeddwn i wedi mynd i amau’r hyn roeddwn i’n ei wneud fel milwr,”’ meddai. ‘“Byth ers i mi fod yn siarad efo Bushman yn Rhodesia...”’

‘Canmol dy fro a thrig ynddi’ sydd yn mynd drwy ei feddwl ar ôl i’r Sarjant ddweud ‘*good hit*’ wedi’r ymosodiad yn Armagh. Er bod hedyn bychan o amheuaeth yn ei feddwl mae fel petai’n gwybod nad oes ganddo ddewis bellach ond derbyn yr hyn all ddigwydd iddo. Ar ôl ymweld â Longshaw yn Llundain mae’n gweld yn glir mai gwas bach mewn byd llwgr ydyw. Ar ddiwedd y cyfarfod hwnnw mae un frawddeg allweddol ym meddwl Owain sef ‘Ond roedd modd gwneud iawn.’ Mae’n smalio cytuno gyda Longshaw a’i gynlluniau gan ddweud yn ddidaro, ‘“*Sounds good to me.*”’ Ond dyma’r adeg y penderfynodd daro’n ôl a brwydro ei frwydr ei hun. Erbyn iddo gyrraedd Ynysoedd Falkland mae wedi bod yn llunio rhestr gydag enwau pobl a oedd yn rhan o’r cynllwyn i ailsefydlogi’r drefn wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon. Cafodd ei anfon gan Symonds i’r ‘Falklands’ am ei fod am gael gwared ohono. Ond roedd Owain wedi rhagweld beth allai ddigwydd iddo, a chadwodd y rhestr enwau yn ddiogel mewn Banc yn y Swistir. Gwyn ei frawd sydd yn penderfynu beth i’w wneud â hi ac mae’n gweithredu ac yn anfon y rhestr i gartref swyddogol Llysgennad yr

Unol Daleithiau ar ran ei frawd ac ar ei ran ef ei hun.

Mae modd dweud fod Gwyn wedi ymladd ei frwydrau mewnol pan oedd yn ifanc a'i fod yn aeddfetach cymeriad ac yn fwy hirben na'i frawd wrth ddadansoddi'r byd a'r bobl o'i gwmpas. Yn yr ysgol mae'n gweld y gwenoliaid wedi'u drysu gan ofid am fod eu nythod wedi'u chwalu. Gweld ei hun a'i gyd-Gymry yn debyg iddynt y mae e. Doedd Owain ar y llaw arall ddim yn deall sylw Gwyn am y gwenoliaid pan ddywedodd, '"Mae o'n dweud y cyfan 'n tydi."' Dod i ddeall yn raddol yn ystod ei yrfa a wnaeth e. Wrth weithio fel gwas bach yn ufuddhau i orchmynion dechreuodd Owain fudferwi o'r tu mewn ac felly roedd dipyn yn hŷn na Gwyn yn ymgodymu â'i frwydrau mewnol.

## 3. Cariad

i. Cariad Richard Lloyd at ei ddau nai. Mae hyn yn amlwg. Mae'n frawd i'w tad ac yn magu'r bechgyn ar ôl iddynt golli eu rhieni. Mae addfwynder arbennig o'i gwmpas ac mae Margaret ei wraig yn ei bryfocio'n chwareus ei fod yn '"sbwylio'r bechgyn 'na."' Nid yw Richard Lloyd yn un sy'n collfarnu ac yn gweld bai. Dyn doeth ydyw - gwelwn hyn yn ei sgyrsiau a'i gynghorion. Mae'n gefn i Gwyn ar ôl iddo gael ei arestio fel myfyriwr ym Mangor (t. 35), ac y mae'n siarad yn ddoeth ag ef ar ôl bod yn hel mynydd (tt. 76-79) ac ar ôl y sêl ddefaid(tt. 57-59). Mae'n cydymdeimlo â Gwyn ond does dim tystiolaeth ei fod yn barnu Owain ychwaith. Er bod 'ias oer yn llithro i fyny ei asgwrn cefn ac yn crychu cefn ei war' pan mae'n gweld Owain yn codi ei alsen bren (gwn) i'r awyr a gwneud salíwt wrth chwarae milwr yn hogyn bach gyda'i frawd, nid yw'n eu gwahardd rhag chwarae rhyfel. Mae'n rhoi rhyddid i'r ddau wneud eu dewisiadau eu hunain mewn bywyd ac mae'n parchu'r dewisiadau hynny.

ii. Cariad dau frawd at ei gilydd. Er gwaethaf popeth mae gwaed yn dewach na dŵr (gweler nodiadau 'Perthynas').

iii. Cariad Gwyn at ei wraig Rhian – mae hithau fel Gwyn yn ferch ei milltir sgwâr ond yn wahanol i Gwyn, yn ferch aeth i'r ysgol leol yn hytrach nag Ysgol Dre.

iv. Cariad Gwyn at ei fab 'Now'. Ar ddiwedd y nofel mae'r ffaith ei fod am ddangos y griafolen iddo sef y goeden y syrthiodd ei frawd ohoni yn dangos ei fod eisiau iddo wybod am ei ewythr a'r hyn a wnaeth.

v. Gwyn yn dangos mor gryf yw cariad dyn at ei fro a'i wlad.

## 4. Bwlio

i) Caiff Gwyn ei fwlio tra oedd yn ddisgybl yn Ysgol Dre. Mae'n darged oherwydd 'ei dawelwch a'i diriondeb naturiol' a'i allu academaidd. Ond mae'n ddigon dewr i herio Watts 'un o giang-feistri ei ddosbarth' a gwelwn ffeit rhwng y ddau. Owain sy'n ennill ond daw Watts yn ôl i ddial arno a chaiff ei gam-drin gan Dunning, un o ffrindiau neu gynffonwyr Watts mewn tric dan-dîn yn ystod yr *assembly*. Yn yr *assembly* gwelwn mai bwli yw'r 'Prif newydd' ac mae'n mwynhau dilorni a gwawdio Gwyn o flaen pawb.

ii) Mae yma ddarlun o un wlad yn bwlio gwledydd eraill e.e. math o fwlio yw ymyrraeth Prydain yn Rhodesia ac efallai fod yr awdur yn awgrymu fod ymyrraeth Llywodraeth Lloegr a'r *SAS* yng Ngogledd Iwerddon yn 'fwlio' budr hefyd.

iii) Mae Longshaw yn bwlio Owain drwy ddulliau slei a chyfrwys yn ystod y cyfarfod yn Llundain. 'Parlwr pry cop' yw ystafell Longshaw iddo ac mae'n sylweddoli ei fod wedi'i gornelu yn ei we. Roedd cynnig Longhshaw 'fel wadin Duraglit, y stwff a ddefnyddiai Owain i roi sglein ar ei fyclau a'i fotymau pres, peth meddal a buddiol ar yr olwg gyntaf ond a oedd wedi ei drin yn amlygu bachau bach mileinig ac oglau fel piso ci.' Defnyddio dulliau'r bwli slei a wnaeth Longshaw, ac fel pob bwli mae ganddo 'ffrind' sef Wilson 'y porthor', ac mae'r pistol trwm y mae Wilson yn ei gario dan ei gesail yn llethu Owain. Gall deimlo anadl poeth Wilson yn 'anghynnes o boeth ar ei wegil' er bod teirllath rhyngddo ac ef. Dyma olygfa sydd yn debyg iawn i olygfa o ffilm James Bond gyda'r dihiryn Longshaw yn hoelio sylw.

# 5. Ffordd o fyw

## i) Y ffordd Gymreig o fyw

Mae Gwyn a Richard Lloyd yn cynrychioli'r ffordd Gymreig o fyw. Mae Richard Lloyd yn ŵr ei filltir sgwâr, yn arweinydd yn ei gymuned. Mae'r ddau yn gweld pwysigrwydd parchu traddodiadau ac etifeddiaeth eu cyndadau er mwyn cadw eu hunaniaeth fel Cymry.

Richard sy'n dysgu Gwyn am ei fro a beth a all ddysgu oddi wrth natur y dirwedd o'i gwmpas (t. 58). Mae cadernid mynyddoedd ei fro yn ei gymeriad. Gŵr positif ydyw. Mae'n gefn i Gwyn ac yn ei gynghori ar ôl iddo gael ei arestio wedi iddo brotestio fel myfyriwr ym Mangor. Mae'n dda am siarad mewn damhegion, sef dweud rhyw wirioneddau am fywyd a hynny drwy gyfeirio at bethau o'i gwmpas. Enghraifft o hyn yw pan mae'n sôn am y ci defaid ar y mynydd. Mae ef a Gwyn yn gweld y ffermwr Edwart Hughes yn ffustio'r ci defaid ifanc ac mae hyn yn dychryn Gwyn. Ond dywed Richard Lloyd, '"Ci ifanc. Yn meddwl bod y byd yn faes chwarae iddo."' Awgrymu y mae efallai fod angen parchu'r byd. Ai symbol o Owain yn gweld y byd fel maes chwarae sydd yma? Dywed Dafydd Chilton mai awgrymu y mae 'fod rhaid wrth ddisgyblaeth o fath arbennig i oroesi, ac os nad yw'r ci/ dyn yn deall hyn y mae'n cael ei gosbi.' Does dim dwywaith fod Richard Lloyd yn ŵr y gellir dibynnu arno i roi arweiniad doeth fel y gwnaeth i Gwyn yma ar ôl hel mynydd ac ar ôl y sêl ddefaid (tt. 57-59). Yn hytrach na chyhuddo, yr hyn a wna yw ymresymu a thrafod. Wrth iddo dyfu i fyny mae Gwyn yn mynd yn debyg iddo. Mae'n newid o fod yn wyllt gacwn wrth ymladd ei achos (roedd yn barod i ddefnyddio'i ddyrnau yn yr ysgol ac yn y sêl ddefaid) i fod yn fwy diplomataidd fel yn y cyfarfod yn Neuadd Llan. Yno gadawodd i bawb arall ddweud eu dweud – roedd yn gwybod pryd i siarad a beth i'w ddweud – roedd wedi paratoi'n ofalus, ac ef enillodd y dydd.

Cynrychioli'r lleiafrif mae Gwyn a Richard Lloyd a brwydro drostynt y maen nhw.

**ii) Y Ffordd Brydeinig o Fyw**

Ar y llaw arall mae Owain yn cynrychioli'r ffordd Brydeinig o fyw fel y mwyafrif mewn cymdeithas — ei gyd-ddisgyblion yn Ysgol Dre, y Prifathro, Padfield un o'r Cadetiaid, Symonds a Longshaw. Mae'r byd hwn yn fwy llwgr o'i gymharu â byd glanach a symlach Gwyn a Richard Lloyd.

Mewn gwirionedd mae'r ddau frawd yn cynrychioli'r math o ddewisiadau y mae Cymry ifanc yn cael eu gorfodi i'w gwneud a'r ddau yn gwneud eu dewisiadau eu hunain - un yn dewis yr hen ffordd Gymreig o fyw a'r llall yn dewis y ffordd Brydeinig. Mae yna oblygiadau i'w dewisiadau, ac o bosibl mae Owain yn sylweddoli mai Gwyn oedd yn iawn a'i fod wedi gwneud camgymeriad yn gadael ei frawd, yn 'cerdded i ffwrdd at ei ffrindiau' yn Ysgol Dre. Gwelodd nad gwyn oedd y man draw, neu ystyriwch a oedd yn gweld mai man Gwyn ei frawd oedd y man draw!

## 6. Gwerth twristiaeth

Yn y nofel mae'r awdur yn cymell y darllenydd i gwestiynu a phwyso a mesur gwerth twristiaeth. Gwelir hyn yn bennaf ym mhennod 12 pan mae cynlluniau Jeff Carrier yn cael eu cyflwyno yn Neuadd Llan. Bwriad y rheolwr canolfan hamdden o Wolverhampton a 'syrthiodd mewn cariad â'r Dyffryn' a'i weld yn lle hyfryd i ddianc iddo ac ymlacio ar ddiwedd wythnos o waith, yw troi'r 'anghenfil hwnnw' Chwarel y Granet yn faes carafanau, gwesty a sba. Roedd Wolverhampton meddai yn llawn o bobl a fyddai'n dod i le fel hyn i aros ac i ymlacio. Roedd gan Carrier gefnogwyr yn y cyfarfod sef y Cynghorydd Sir, Edward Jones, Swyddog Cynllunio'r Sir. Yn siarad yn ei erbyn mae fferwmwr lleol, Morus Ifans, sy'n dadlau y byddai'r cynllun yn gwneud drwg i amaethyddiaeth wrth i dwristiaid grwydro'r tir. Digon tila yw ei ddadleuon ef, ond yna mae Gwyn yn codi ar ei draed. Mae'n amlwg fod Gwyn wedi gwneud ei waith cartref ac mae'n cyflwyno'i ddadleuon yn ofalus. Mae wedi darllen astudiaeth *Brownrigg & Grieg 1976* ar effaith twristiaeth ar ardaloedd gwledig, a dywed fod yr astudiaeth wedi canfod mai lleiafswm cyflog y mae pobl leol yn ei gael, a bod y rhan fwyaf o'r swyddi yn rhai dros dro neu'n dymhorol neu'n rhai i ferched. Roedd y diwydiant hwn hefyd yn troi at arbenigedd y tu allan yn hytrach na hyfforddi pobl leol.

Wedi cyflwyno'i ddadleuon a gweld tyllau yn nadleuon Carrier, cynigia Gwyn y byddai'n well i'r Awdurdod Datblygu, os oedden nhw'n bwriadu rhoi arian i dwristiaeth, ei roi:

i) i greu cronfa fenthyciadau llog isel i bobl ifanc sydd am ddechrau ffermio
ii) fel grantiau i fusnesau bach i gynhyrchu nwyddau o ansawdd uchel
iii) i hyfforddi pobl i fod yn arweinwyr mynydd yn hytrach na phenodi pobl 'o ffwrdd' i swyddi.

Mae'n cloi drwy ddweud nad yw cael maes carafanau na gwesty yn ffordd ymlaen i'r dyffryn – ecsbloetio Cymru a buddiannau pobl Cymru fyddai hynny, meddai, er budd pobol 'o ffwrdd'. Ni fyddai hynny o ddim lles i'r bobl sydd yn byw yn y dyffryn.

## 7. Faint o wirionedd gawn ni gan y cyfryngau

(Gweler sylwadau'r awdur, Cwestiwn 14)

Mae Dafydd Chilton am i ddarllenwyr *Dim* fod yn ddarllenwyr ystyrlon sy'n gofyn cwestiynau pwysig ynglŷn â beth sydd yn digwydd yn y byd a phwy mewn gwirionedd sy'n rhedeg a rheoli'r byd. Mae am i'r darllenydd ystyried faint o wirionedd rydym yn ei gael gan y cyfryngau ac a ydyn nhw'n cyflwyno darlun teg neu ddarlun unochrog.

Drwy fywyd Owain rydym yn cwestiynu a yw'r papurau newydd a'r cyfryngau yn rhoi darlun cywir bob amser o'r hyn sy'n digwydd yn y byd. Drwy Owain rydym yn deall pa mor dwyllodrus a chynllwyngar yw llywodraethau a phobl sydd mewn grym. Wrth ddangos dulliau'r *SAS* o weithredu yng Ngogledd Iwerddon a'r modd y cynlluniwyd yr ymosodiad ar y Cortina llwyd (tt. 46-49) awgrymir na fyddai'r fersiwn cywir o beth ddigwyddodd yn ymddangos yn y papurau newydd ac ar y cyfryngau. Ni fyddem ychwaith wedi darllen mewn papur newydd fod aelod o'r *SAS*, sef Owain, wedi lladd y person anghywir yn y fynwent (tt. 60-62), ac ni fyddem wedi darllen am y ffordd farbaraidd yr ymosodwyd ar wersyll y *ZANLA* (t. 42) – byddai 'sbin' arall yn cael ei roi i'r digwyddiadau hyn hefyd.

Mae'r hanes am y ffordd y trefnwyd 'damwain' Owain, sef y ffordd y bu farw, yn codi ofn. Ni fyddai'r fersiwn cywir o'r hyn ddigwyddodd, sef bod Owain wedi cael ei ladd yn fwriadol, fyth yn

cyrraedd y papurau newydd. Byddai'r awdurdodau wedi llwyddo i fwydo stori arall i'r cyfryngau torfol.

A beth am y ddamwain ar ddiwedd y nofel? Y mae'r awdur wrth ateb y cwestiwn 'A oedd y ddamwain yn un fwriadol?' yn egluro'i fwriad yn glir. Mae am ddangos cymaint o lwch y mae'r cyfryngau yn ei daflu i lygaid darllenwyr. Fydden ni byth wedi cael gwybod yn iawn mai bwriadol oedd lladd holl swyddogion gwasanaethau cudd Gogledd Iwerddon, a bod gwasanaethau cudd Gogledd Iwerddon eu hunain wedi bod â rhan yn y gwaith o drefnu'r helyntion yno. Ffuglen yw'r nofel hon. Ond rhaid cofio beth ddywedodd Dafydd Chilton – 'mae pob digwyddiad o bwys yn y nofel wedi digwydd.' Mae'r nofel hon yn gwneud i'r darllenydd feddwl o ddifri a ydy'r hyn rydym yn ei ddarllen bob amser yn wir.

## Ydy hi'n nofel besimistaidd?

Y cwestiwn y mae rhywun yn ei ofyn felly yw ai nofel besimistaidd sy'n edrych ar fywyd trwy sbectol dywyll ac yn codi ofn ar bobl yw *Dim*? Ar un wedd gellir dadlau hynny. Rydym yn sylweddoli pa mor llwgr y gall llywodraethau fod, a bod yna 'rymoedd tywyll' yn rheoli'r byd, ac nad yw pethau yn edrych fel ag y maen nhw.

Ond ar y llaw arall mae'n nofel obeithiol optimistaidd hefyd. Nid yw'r holl ergydion personol gafodd Gwyn – colli'i rieni, ei frawd, colli'i angor, Richard Lloyd – yn ei suro na thorri ei galon. Nid yw ychwaith yn gwangalonni ar ôl darllen llythyr ei frawd. Un am ddal ati ydyw a dyfalbarhau. Golygfa symbolaidd optimistaidd sydd yn cloi'r nofel gyda Gwyn yn mynd â'i fab at y griafolen. Nid yw am i 'Now' (Owain) gefnu a chau'r drws ar ei orffennol. Mae am sôn am ei orffennol a'r hyn ddigwyddodd i'w ewythr er mwyn iddo allu wynebu'r dyfodol.

# CYDNABYDDIAETHAU

## Lluniau

| | |
|---|---|
| **Clawr *Dim*:** | © **Y Lolfa**, t. 4 |
| **Clawr *Hanner Canrif o Brotestio Dros y Gymraeg: I'r Gad*:** | © **Y Lolfa**, t. 12 |
| **Poster 'Ie Dros Gymru':** | © Llyfrgell Genedlaethol Cymru **https://goo.gl/bX5hYg** t. 15 |
| **Poster '*Vote No to the Welsh Assembly*':** | © Llyfrgell Genedlaethol Cymru **https://goo.gl/bX5hYg** t. 15 |
| **Baner Glyndŵr:** | © **https://goo.gl/MLubZS** t. 17 |

Gwnaethpwyd pob ymdrech i gysylltu â deiliaid hawlfraint y deunyddiau, ond os oes unrhyw beth wedi'i hepgor, neu unrhyw beth yn anghywir, rhowch wybod i ni er mwyn i ni allu gwneud y cywiriadau angenrheidiol.

Diolch i **Y Lolfa** am eu caniatâd i gynnwys dyfyniadau byr o'r nofel ac am gael defnyddio clawr y gyfrol yn y gwaith hwn.

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddarparu i gefnogi'r broses o addysgu a dysgu TGAU Llenyddiaeth Gymraeg CBAC. Mae'r deunyddiau'n rhoi cyflwyniad i brif elfennau'r nofel a dylid eu defnyddio ar y cyd ag adnoddau eraill yn ogystal ag addysgu cadarn yn yr ystafell ddosbarth.